

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am
Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Tachwedd 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopiau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8154
Ffacs: 029 2089 8021
Ebost: swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am
Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Tachwedd 2009



Cynnwys

	Tudalen
Aelodau'r Pwyllgor	3
Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion	4
1. Cyflwyniad	7
2. Cefndir Polisi	9
3. Egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r angen am ddeddfwriaeth	11
4. Cwmpas y Mesur arfaethedig	14
5. Adrannau 1 a 2 - Codi ffioedd am wasanaethau ac uchafswm y ffioedd	16
6. Adran 3 - eithrio categorïau o bobl, gwasanaethau neu gyfuniad o wasanaethau rhag codi ffioedd	21
7. Adran 4 - hawl defnyddwyr gwasanaethau i gael asesiad modd	25
8. Adran 5 - darparu gwybodaeth am ffioedd a phroffion modd	29
9. Adran 6 - yr hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniadau ynghylch codi ffioedd	32
10. Adran 7 - y gwasanaethau gofal dibreswyl y mae'r Mesur arfaethedig hwn yn gymwys iddynt	35
11. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ac adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth	37
12. Goblygiadau ariannol a goblygiadau ehangach y Mesur arfaethedig ac adroddiad y Pwyllgor Cyllid	40
Atodiadau	49
Atodiad 1: Llythyr ymgynghori gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru)	
Atodiad 2: Rhestr o ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth ychwanegol	
Atodiad 3: Rhestr o'r dystiolaeth lafar	

Atodiad 4: Tystiolaeth ysgrifenedig atodol gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gorffennaf 2009

Atodiad 5: Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur arfaethedig

Atodiad 6: Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Mesur arfaethedig

Atodiad 7: Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arfaethedig

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Aelodau'r Pwyllgor

Mark Isherwood (Cadeirydd)	Plaid Geidwadol Cymru	Gogledd Cymru
Mick Bates	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Sir Drefaldwyn
Alun Davies	Llafur	Canolbarth a Gornllewin Cymru
Lesley Griffiths	Llafur	Wrecsam
Darren Millar	Plaid Geidwadol Cymru	Gornllewin Clwyd
Leanne Wood	Plaid Cymru	Canol De Cymru

Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion

Ewch i adran berthnasol yr Adroddiad i weld ein hargymhellion llawn.

Egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r angen am deddfwriaeth

i. Rydym yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Nodwn y gefnogaeth eang sydd i'r Mesur arfaethedig yn y dystiolaeth a gasglwyd. Cytunwn fod angen i'r Mesur arfaethedig fynd i'r afael â'r anghysondeb mewn polisiau codi ffioedd ar draws awdurdodau lleol er mwyn sicrhau system decach i'r rheini sy'n talu am wasanaethau gofal cartref. (Paragraff 3.14)

ii. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod ac yn rhannu rhai o'r prif bryderon a godwyd ynghylch sut y caiff y Mesur arfaethedig ei roi ar waith. Bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r rhain pan gaiff y rheoliadau eu datblygu ac felly rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i ymgynghori'n eang ar y rheoliadau drafft. (Paragraff 3.15)

Cwmpas y Mesur arfaethedig

iii. Rydym yn croesawu bwriad y Dirprwy Weinidog i ddwyn ynghyd pob un o'r rheini sy'n cael taliadau uniongyrchol o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig, unwaith y bydd y Cynulliad wedi cael y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol drwy'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch gofalwyr. (Paragraff 4.7)

Adrannau 1 a 2 - Codi ffioedd am wasanaethau ac uchafswm y ffioedd

iv. Er ein bod yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch sut y dylid pennu'r uchafswm ffi, rydym yn fodlon y bydd dirprwyo pwerau i'r Dirprwy Weinidog yn caniatáu digon o hyblygrwydd er mwyn gallu addasu'r polisi ar gyfer codi ffi, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni amcanion polisi Llywodraeth y dydd. (Paragraff 5.21)

v. Fodd bynnag, cytunwn â Coalition on Charging Cymru a'r tystion eraill y dylai egwyddor sylfaenol y Mesur arfaethedig nodi na ddylai unrhyw ddefnyddiwr gwasanaethau fod mewn sefyllfa waeth o ganlyniad i'w gyflwyno. Dylid diwygio'r Mesur arfaethedig i gynnwys yr egwyddor hon. (Paragraff 5.22)

vi. Credwn y dylai unrhyw reoliadau o dan adran 2 o'r Mesur arfaethedig fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a fyddai'n rhoi mwy o gyfle i'r Cynulliad graffu ar y Mesur arfaethedig a phenderfynu ar ba mor briodol yw cynigion y Dirprwy Weinidog. (Paragraff 5.26)

vii. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd, rydym hefyd yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog yn monitro effaith y rheoliadau ac y dylid diwygio'r Mesur arfaethedig i gynnwys dyletswydd i adolygu'r rheoliadau yn flynyddol. (Paragraff 5.27)

Adran 3 - eithrio categorïau o bobl, gwasanaethau neu gyfuniad o wasanaethau rhag codi ffioedd

viii. Credwn y dylai'r Dirprwy Weinidog gael y pŵer i benderfynu pa categorïau o bobl, gwasanaethau neu gyfuniad o wasanaethau y dylid eu heithrio rhag codi ffioedd. Unwaith eto, bydd hyn yn rhoi'r pŵer i'r Dirprwy Weinidog addasu'r polisi yn unol ag amgylchiadau sy'n newid. (Paragraff 6.18)

ix. Fodd bynnag, rydym hefyd yn pryderu bod y ddarpariaeth hon yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran cydraddoldeb. Felly, credwn y dylai unrhyw reoliadau o dan yr adran hon fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. (Paragraff 6.19)

Adran 4 - hawl defnyddwyr gwasanaethau i gael asesiad modd

x. Rydym yn cydnabod barn tystion ar adran 4. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â sut y caiff y profion modd eu gweithredu a pha incwm y gellir ei ddiystyru. Mae'r rhain yn faterion yr ymdrinnir â hwy drwy reoliadau. (Paragraff 7.22)

xi. O gofio effaith bosibl y rheoliadau hyn ar safon byw y bobl sy'n cael gofal, rydym yn argymhell y dylai unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 4 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. (Paragraff 7.23)

Adran 5 - darparu gwybodaeth am ffioedd a phroffion modd

xii. Rydym yn croesawu'r rhwymedigaeth glir sydd ar awdurdodau lleol i ddarparu'r wybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygrych yn y Mesur arfaethedig ac yn argymhell y dylai hefyd gynnwys rhwymedigaeth i'w darparu mewn iaith glir neu fersiwn hawdd ei darllen neu gynnig ei ddarparu wyneb yn wyneb. (Paragraff 8.17)

xiii. Rydym yn pryderu y gellir codi ffi ar ddefnyddwyr gwasanaethau weithiau am wasanaethau a gafwyd ganddynt cyn iddynt gael gwybod beth yw canlyniad eu hasesiad ariannol. Felly, rydym yn argymhell y dylid diwygio adran 5 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am ffioedd y bydd disgwyl i'r defnyddiwr gwasanaethau eu talu a chanlyniad unrhyw brawf modd cyn codi'r ffi. (Paragraff 8.19)

Adran 6 - yr hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniadau ynghylch codi ffioedd

xiv. Rydym yn argymhell y dylid diwygio adran 6 er mwyn egluro bod gofawyr neu eiriolwr annibynnol yn gallu gwneud cais am adolygiad ar ran y defnyddiwr gwasanaethau. (Paragraff 9.14)

xv. Rydym yn cytuno ar y dystiolaeth a gyflwynwyd nad yw'r Mesur arfaethedig yn gwahaniaethu'n glir rhwng hawl i adolygiad syml, a nodir yn y Mesur arfaethedig, a hawl i apêl, a sut y dylai'r dull apelio edrych. (Paragraff 9.15)

xvi. Felly, rydym yn argymhell y dylid diwygio 6(2) i roi hawl i unigolion apelio sy'n wahanol i adolygiad. Rydym yn cytuno y dylai unrhyw ddull apelio fod yn annibynnol ar awdurdod lleol. (Paragraffau 9.16 a 9.15)

Goblygiadau ariannol a goblygiadau ehangach y Mesur arfaethedig ac adroddiad y Pwyllgor Cyllid

xvii. Nodwn y dystiolaeth gan awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol ac asiantaethau gofal ynghylch effaith bosibl y Mesur arfaethedig ar wasanaethau gofal awdurdodau lleol. Rydym yn rhannu eu pryderon y gallai'r Mesur arfaethedig, os caiff ei roi ar waith, ac os nad yw'r ad-daliad yn ddigonol, arwain at awdurdodau lleol yn codi'r meini prawf cymhwys ar gyfer gwasanaethau gofal, gan gyfyngu ar yr hyn sydd ar gael i'r rheini sydd mewn angen. (Paragraff 12.41)

xviii. Yn unol â'r hyn a gaiff ei argymhell uchod, mae ein barn na ddylai unrhyw ddefnyddiwr gwasanaethau fod mewn sefyllfa waeth o ran y swm y mae'n ei dalu ar gyfer gwasanaethau yr un mor gymwys fan hyn. Ni ddylai unrhyw ddefnyddiwr ddiodef gostyngiad yn lefel y gwasanaethau y mae'n eu cael. (Paragraff 12.42)

xix. Rydym yn sylweddoli na fydd y Mesur arfaethedig yn effeithio ar ddisgresiwn awdurdodau lleol i bennu eu meini prawf cymhwyster eu hunain, gan nad yw o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, credwn y dylai Llywodraeth Cymru anelu at sicrhau lefel uwch o gysondeb ledled Cymru yn y maes hwn hefyd. Fel arall, bydd yr annhegwch hwn yn parhau. Felly, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru geisio cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn hefyd. (Paragraff 12.43)

xx. Yng ngoleuni'r pryderon hyn a'u canlyniadau ariannol posibl, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i ad-dalu cost unrhyw faich ariannol ychwanegol i awdurdodau lleol. Nodwn bryderon CLILC / ADSS Cymru na ddylai hyn fod ar draul ariannu gwasanaethau presennol yn y dyfodol y credir eu bod yn hanfodol (Paragraff 12.44)

1. Cyflwyniad

1.1. Cafodd Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) ('y Mesur arfaethedig') a'r Memorandwm Esboniadol eu gosod gerbron y Cynulliad gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, ar 29 Mehefin 2009 yn unol â Rheol Sefydlog 23.14

1.2. Yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2009, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ('y Pwyllgor') i'w ystyried yn fanwl a chytunodd y dylai gyflwyno adroddiad ar y Mesur arfaethedig erbyn 3 Tachwedd 2009 fan bellaf.

Cwmpas gwaith craffu'r Pwyllgor

1.3. Ystyriwyd y Mesur arfaethedig am y tro cyntaf ar 7 Gorffennaf 2009 pan gytunwyd ar y fframwaith canlynol ar gyfer ein gwaith:

1.4. Bydd y Pwyllgor yn ystyried:

(i) yr angen am Fesur arfaethedig i gyflawni'r amcanion a bennwyd:

- darparu ar gyfer cyflwyno trefn newydd ar gyfer codi ffioedd a fydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn mabwysiadu dull mwy cyson o godi ffioedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl;

- sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu darpariaethau manwl mewn rheoliadau a chanllawiau statudol a wneir o dan y Mesur arfaethedig, sy'n cynnwys y mathau o wasanaethau a grwpiau o gleientiaid sydd wedi'u heithrio rhag codi ffioedd, boed yn ffioedd safonol neu uchaf, a'r broses asesu ariannol (prawf modd);

- cyflwyno dull clir a chyson mewn perthynas â'r wybodaeth y bydd defnyddwyr yn ei chael gan awdurdodau lleol ynghylch eu ffioedd a'r ffordd y caiff y cais i adolygu ei drin.

ii) y prif ddarpariaethau yn y Mesur arfaethedig ac a ydynt yn briodol i gyflawni ei amcanion penodol;

iii) rhwystrau posibl i weithredu'r prif ddarpariaethau ac a yw'r Mesur arfaethedig yn eu hystyried;

iv) barn rhanddeiliaid y bydd yn rhaid iddynt weithio gyda'r trefniadau newydd.

Tystiolaeth

1.5. Anfonodd y Pwyllgor llythyr ymgynghori at randdeiliaid allweddol ym maes codi ffioedd am wasanaethau cymdeithasol ac at y rheini a all fod â diddordeb yn y Mesur arfaethedig. Ceir copi o'r llythyr ymgynghori yn Atodiad 1. Cyhoeddwyd galwad am dystiolaeth hefyd. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad oedd dydd Gwener 28 Awst. Daeth 25 o

gyflwyniadau ysgrifenedig i law gan sefydliadau. Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth ychwanegol yn Atodiad 2.

1.6. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Ceir copi o'r amserlen ar gyfer y sesiynau tystiolaeth lafar yn Atodiad 3.

1.7. Ar gais y Pwyllgor, cafwyd rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ceir manylion y dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn Atodiad 3. Ceir copi o'r dystiolaeth ysgrifenedig atodol a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2009 yn Atodiad 4.

1.8. Mae'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a'r Pwyllgor Cyllid hefyd wedi cyflwyno adroddiadau ar y Mesur arfaethedig. Ceir copi o'u hadroddiadau yn Atodiadau 5 a 6.

1.9. Mae'r adroddiad a'r argymhellion canlynol yn adlewyrchu'r casgliadau y daethom iddynt ar sail y dystiolaeth a gafwyd yn ystod cyfnod ein gwaith.

2. Cefndir polisi

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arfaethedig.

2.1 Mae'r prif bŵer sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud Mesur mewn perthynas â chodi ffioedd ar gyfer gofal dibreswyl wedi'i gynnwys ym Mater 15.1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ceir copi o'r Mater hwn yn Atodiad 7.

Cefndir i'r Mesur arfaethedig

2.2 Mae hwn yn Fesur arfaethedig Llywodraeth ac mae'n ceisio sicrhau dull mwy cyson o godi ffioedd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn dilyn pryderon bod y ffioedd a godir gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn amrywio'n eang gan ddibynnu ar ble y mae'r defnyddiwr gwasanaethau yn byw.

2.3 Byddai'r Mesur arfaethedig ond yn gymwys i wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol ac nid i'r rheini a ddarperir gan ddarparwyr preifat. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai ei bwriad ar hyn o bryd yw peidio â defnyddio'r Mesur arfaethedig i reoleiddio'r modd o godi ffioedd ar gyfer gwasanaethau i blant.

2.4 Mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl a allai ddod o dan gwmpas y Mesur arfaethedig hwn yn cynnwys:

- Gofal cartref;
- Canolfannau gofal dydd;
- Trafnidiaeth;
- Prydau bwyd;
- Golchi dillad; a
- Gwasanaethau adsefydlu.

2.5 Mae'r Mesur arfaethedig yn Fesur galluogi i raddau helath, ac felly cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru fydd cyflwyno is-ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol i ddarpau'r manylion yn y fframwaith deddfwriaethol newydd yn ddiweddarach.

Memorandwm Esboniadol

2.6 Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar y canlynol:

“...a) mathau'r gwasanaethau y gellir codi ffioedd amdanynt neu na ellir codi ffioedd amdanynt (ee gofal cartref, canolfannau gofal dydd, trafndiaeth, prydau bwyd, golchi dillad, gwasanaethau adsefydlu);
b) grwpiau'r cleientiaid y gellir codi ffioedd arnynt neu na ellir codi ffioedd arnynt (ee y sawl sy'n derbyn budd-daliadau penodol, gofalwyr, y sawl sydd dros drothwy oedran penodol);
c) y broses asesu ariannol (gan gynnwys yr hyn y gellir ei ystyried a'r hyn na ellir ei ystyried a lefel ofynnol yr incwm y mae'n rhaid ei adael i ddefnyddwyr gwasanaethau ar ôl codi ffioedd);

- d) y ffi safonol neu uchaf y gellir ei thalu am wasanaeth unigol neu am unrhyw becyn gwasanaethau i unigolyn;
- e) pennu uchafswm ffi neu amrywiaeth o uchafsymiau ffioedd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau unigol;
- f) eithriadau o ran codi ffioedd am wasanaethau rhagnodedig penodol am gyfnod rhagnodedig o amser;
- g) adolygiadau o benderfyniadau ynghylch ffioedd a gymerir gan awdurdodau lleol.”

2.7 Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi: "...o dan y Mesur arfaethedig bydd awdurdodau lleol yn parhau i allu pennu ffioedd o'r fath am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn ôl yr hyn a ystyriant yn rhesymol." Fodd bynnag, bydd y disgrisiwn hwn yn ddarostyngedig i "[g]lyfyngiadau penodol" a bennir mewn rheoliadau yn y dyfodol. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y bydd awdurdodau lleol dal yn gallu penderfynu peidio â chodi ffi o gwbl neu i godi llai na'r hyn a fyddai'n rhesymol petaent yn penderfynu gwneud hynny.

2.8 Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ynghylch ffioedd. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol

"... roi gwybodaeth i ddefnyddwyr presennol y gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr am y gwasanaethau y codir ffi amdanynt, eu ffioedd safonol a phroffion modd. Rhaid darparu'r wybodaeth hon yn rhad ac am ddim ac mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch."

2.9 Lle bydd awdurdodau lleol yn penderfynu pennu ffi ar ddefnyddiwr, bydd yn ofynnol iddynt roi gwybodaeth i'r person hwnnw ynghylch y ffi arfaethedig a'r weithdrefn ar gyfer adolygu ffioedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro:

"...bydd hyn yn sefydlu dull clir a chyson o roi gwybodaeth i ddefnyddwyr am eu ffioedd a'r ffordd y caiff ceisiadau i'w hadolygu eu trin."

3. Egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r angen am ddeddfwriaeth

3.1 Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gafwyd mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig yn gadarnhaol. Mae yna gefnogaeth eang i unrhyw ddeddfwriaeth a fyddai'n rhoi rhywfaint o unffurfiaeth o ran codi ffi am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl ledled Cymru gan y sector statudol a gwirfoddol yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau. Byddai'n cyflwyno system decach ac yn mynd i'r afael ag anghysonderau o ran y dull a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i godi ffioedd.

3.2 Eglurodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) eu cefnogaeth drwy fynegi eu pryder ynghylch goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig¹ (ceir mwy o fanylion isod: adran 12). Mae cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol hefyd wedi nodi pryderon ynghylch yr effaith gynyddol i wasanaethau os na chaiff awdurdodau lleol eu had-dalu'n ddigonol am y golled mewn incwm o ganlyniad i godi ffi gyfyngedig.

3.3 Cyfeiriodd sawl tyst at y dystiolaeth sy'n bodoli yn adroddiad LE Wales ynghylch yr anghysonderau hyn. Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru i lywio datblygiad y Mesur arfaethedig. Cafwyd crynodeb o'r sefyllfa gan Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru:

“Whilst there is a need to ensure that services are tailored to reflect different local contexts, a variation of £16.20 to £200 in maximum weekly charge for homecare services levied by different local authorities, with 7 authorities not setting a maximum charge at all, is evidently inequitable and far too large to be defended in terms of differences in the cost of providing or commissioning services. In addition being required to provide a contribution of £200 or more per week for care services would be likely to cause the majority of people or their family significant financial hardship.”²

3.4. Mae Cyngor Gofal Cymru yn cytuno bod angen i'r Mesur arfaethedig hwrwyddo system decach i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalgwyr ac y dylai fod yn haws i'w hegluro a'i gweinyddu gan y gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, maent hefyd yn nodi pryder ynghylch y canlynol:

“Inconsistencies will, of course, continue to exist as Councils will still be able to make local policy in relation to eligibility criteria for services. Action may need to be taken to ensure that Councils have sufficient resources to implement the policy change in order to avoid tightening of eligibility criteria to “afford” the change.”³

3.5. Mae Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru hefyd yn credu bod y ffaith nad yw'r Mesur arfaethedig yn mynd i'r afael ag amrywiadau posibl yn y meini prawf cymhwyster yn gyfyngiad sylweddol ar y Mesur arfaethedig.

¹ CLILC ac ADSS, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC8

² Age Concern a Help the Aged Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC13

³ Cyngor Gofal Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC1

Drwy beidio â mynd i'r afael â hyn, nid yw'r Mesur yn gwneud digon i sicrhau cysondeb ledled Cymru.⁴ Dywedodd Scope Cymru hefyd:

“Although we welcome greater consistency we hope eligibility thresholds will not be set too high because this will still lead to a postcode lottery.”

3.6. Mae'r Mesur arfaethedig ar ffurf deddfwriaeth fframwaith a fydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i weithredu eu polisiau. Felly, mae llawer o'r materion a nodwyd mewn tystiolaeth yn ymwneud â phryderon ynghylch y math o fanylion a gaiff eu cynnwys yn y rheoliadau.

3.7. Mae Cynghrair Niwrolegol Cymru yn feirniadol o raddau'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru, yn arbennig y rheini sy'n ymwneud â lefel y ffioedd a'r bobl a gaiff eu heithrio rhag talu ffi (gweler isod hefyd: adran 11)⁵. Nododd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ei fod yn anodd gwneud sylwadau ar y Mesur arfaethedig o gofio y byddai manylion y darpariaethau a fyddai'n effeithio arnynt hwy yn cael eu cyflwyno mewn deddfwriaeth yn ddiweddarach.

3.8. Felly, nododd y rhan fwyaf o'r tystion bwysigrwydd ymgynghori'n eang ar y rheoliadau drafft cyn iddynt gael eu gwneud a'r ffaith bod y dyddiadau cau ar gyfer eu rhoi ar waith yn dynn (bwriedir rhoi'r Pecyn Camau Cyntaf ar waith erbyn mis Ebrill 2011).

3.9 Dywedodd rhai o'r tystion hefyd fod y Mesur arfaethedig yn amserol, hynny yw bydd yn digwydd ar yr un pryd â'r gwaith o ailstrwythuro'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Bydd yr ymddiriedolaethau newydd yn cynnwys mwy nag un awdurdod lleol ac felly mae'n gwneud synnwyr y bydd llai o wahaniaethau yn y ffioedd a godir ar ddefnyddwyr gwasanaethau ar draws ardal ymddiriedolaeth iechyd.

3.10. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn croesawu'r Mesur arfaethedig fel modd o fynd i'r afael â loteri'r cod post. Mae'n gwneud cais penodol i Lywodraeth Cymru neu bwyllgor y Cynulliad gynnal asesiad effaith cydraddoldeb a hawliau dynol llawn o'r Mesur arfaethedig.⁶

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

3.11. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn credu'n gryf fod angen am y Mesur arfaethedig hwn o gofio'r amrywiaeth sylweddol yn y ffordd mae awdurdodau lleol yn pennu ffioedd, yr ystod o wasanaethau y mae'n rhaid i ddefnyddwyr dalu amdanynt, a'r gwahanol brosesau asesu ariannol. Eglurodd na ellir defnyddio'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 i gyflawni'r lefel o gysondeb a thegwch rydym yn chwilio amdani:

⁴ Age Concern a Help the Aged Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC13

⁵ Cynghrair Niwrolegol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC21

⁶ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig SCC25

“we remain firmly of the opinion that the only way in which to deliver a consistent and fair approach to charging is by bringing forward this proposed Measure.”⁷

3.12. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi rhoi sicrwydd y caiff awdurdodau lleol eu had-dalu'n llawn ac na fyddant yn colli allan o ganlyniad uniongyrchol i'r Mesur arfaethedig.⁸ Rhoddodd sicrwydd hefyd y byddai'n ymgynghori ar y rheoliadau arfaethedig a fydd yn dilyn y Mesur arfaethedig, gan ddweud:

“...it is crucial that we consult widely with stakeholders.”⁹

3.13. O ran y pryderon ynghylch disgresiwn awdurdodau lleol i godi'r meini prawf cymhwyster ar gyfer gwasanaethau, eglurodd y Dirprwy Weinidog fod hyn y tu allan i gwmpas y Mesur arfaethedig ac y byddai'n parhau i fod yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol.¹⁰

Ein barn ni

3.14. Rydym yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Nodwn y gefnogaeth eang sydd i'r Mesur arfaethedig yn y dystiolaeth a gasglwyd. Cytunwn fod angen i'r Mesur arfaethedig fynd i'r afael â'r anghysondeb mewn polisiau codi ffioedd ar draws awdurdodau lleol er mwyn sicrhau system decach i'r rheini sy'n talu am wasanaethau gofal cartref.

3.15. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod ac yn rhannu rhai o'r prif bryderon a godwyd ynghylch sut y caiff y Mesur arfaethedig ei roi ar waith. Bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r rhain pan gaiff y rheoliadau eu datblygu ac felly rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i ymgynghori'n eang ar y rheoliadau drafft.

⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 86, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁹ Ibid, paragraff 11

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 206, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

4. Cwmpas y Mesur arfaethedig

4.1. Gofynnodd i sawl tyst sut y byddai'r Mesur arfaethedig yn effeithio ar y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol.¹¹

4.2. Cododd Coalition on Charging Cymru fater perthnasol, sef cynghorau'n talu taliadau uniongyrchol, ar ôl tynnu'r ffioedd, a fyddai'n arwain, ym marn y cwmni, at rai defnyddwyr gwasanaethau'n lleihau eu gwasanaethau os na allant fforddio'r ffi.¹²

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

4.3. Dywedodd y Dirprwy Weinidog nad yw'r Mesur arfaethedig yn gymwys i'r rheini sy'n cael taliadau uniongyrchol, gan fod Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 yn ehangu'r categori o bobl y gellir gwneud taliadau uniongyrchol iddynt y tu hwnt i gwmpas y cymhwysedd a bennir yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Gofal Cartref. Felly, ni fyddai'r holl gategorïau o bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol wedi bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad fel y mae ar hyn o bryd.

4.4. Eglurodd y Dirprwy Weinidog mai'r rheswm dros hyn oedd amseriad y Mesur Seneddol ynghylch Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a oedd yn ei ragflaenu yn mynd drwy Senedd y DU a Senedd y Cynulliad ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae'r Dirprwy Weinidog yn mynd i'r afael â hyn gan fod Llywodraeth Cymru yn ceisio cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i gynnwys yr holl gategorïau o daliadau uniongyrchol drwy gyfrwng y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft (Lles Cymdeithasol), a ddylai gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2009.¹³

4.5. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi nodi ei bwriad i gyflwyno gwelliannau yn ystod Cyfnod 2 o'r gwaith craffu ar y Mesur arfaethedig er mwyn ehangu cwmpas y Mesur arfaethedig i fod yn gymwys i'r ystod lawn o daliadau uniongyrchol.¹⁴

4.6. Ar y mater o dalu taliadau uniongyrchol, ar ôl tynnu'r ffioedd, nododd y Dirprwy Weinidog fod hyn yn ymwneud â gweinyddu taliadau uniongyrchol, nad yw o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, mae ei swyddogion yn trafod hyn gyda'r grŵp trosolwg taliadau uniongyrchol, ac ymdrinnir â hyn y tu allan i fframwaith y Mesur arfaethedig.¹⁵

Ein barn ni

4.7. Rydym yn croesawu bwriad y Dirprwy Weinidog i ddwyn ynghyd pob un o'r rheini sy'n cael taliadau uniongyrchol o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig, unwaith y bydd y Cynulliad wedi cael y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol drwy'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch gofalwyr.

¹¹ Cyngor Gofal Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC 1; Cyngorhrai Niwrolegol Cymru, Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 24 Medi 2009

¹² Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 266, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5; gweler hefyd: llythyr gan y Dirprwy Weinidog, Gorffennaf 2009, (gweler Atodiad 4)

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 153, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

4.8. Fodd bynnag, nodwn fod y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol gwreiddiol wedi'i ddrafftio yn y fath fodd nad oedd yn caniatáu digon o hyblygrwydd i gynnwys newidiadau yn y ddeddfwriaeth Seneddol berthnasol, y Mesur Seneddol ynghylch Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

4.9. Gan fod y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Gofal Cartref a'r Mesur Seneddol yn mynd drwy'r gweithdrefnau seneddol priodol gan ddilyn amserlen gyfochrog, credwn y dylai fod wedi bod yn bosibl diwygio'r Gorchymyn arfaethedig i ystyried y diffiniad sydd yn y Mesur Seneddol. Gan nad oedd hyn wedi digwydd, rydym yn pryderu fod hyn yn awgrymu diffyg cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau Mesurau Seneddol i Gymru.

4.10. Credwn ei fod hefyd yn dangos manteision drafftio Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn eang yn y dyfodol. Byddai hyn yn osgoi'r rheidrwydd i geisio pwerau ychwanegol drwy Orchymynion eraill fel y bu'n rhaid i'r Dirprwy Weinidog ei wneud yn yr enghraifft hon. Yn ffodus, ar yr achlysur hwn, nodwn na ddylai oedi cynnydd y Mesur arfaethedig.

4.11. Nodwn yr anfonlonrwydd a fynegwyd ynghylch didynnu ffioedd yn y gwraidd ar gyfer taliadau uniongyrchol. Rydym yn fodlon ar esboniad y Dirprwy Weinidog ac yr ymdrinnir â'r mater hwn y tu allan i gwmpas y Mesur arfaethedig.

5. Adrannau 1 a 2 – Codi ffioedd am wasanaethau ac uchafswm y ffioedd

5.1. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn datgan:

“...rheol gyffredinol gyfreithiol y caiff awdurdod lleol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth y mae'r Mesur hwn yn ymwneud ag ef godi ffi am y gwasanaeth hwnnw am y cyfryw swm ag y mae'n ystyried sy'n rhesymol”.¹⁶

5.2. Mae Adran 2 o'r Mesur arfaethedig yn nodi, wrth ystyried beth sy'n ffi resymol ar gyfer gwasanaeth, rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a fyddai'n rheoli neu'n pennu uchafswm ffi.

5.3. Byddai Gweinidogion yn gallu:

- pennu uchafswm y ffi am wasanaeth, neu gyfuniad o wasanaethau, y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddynt (adran 2(3)(a))
- nodi fformiwla ar gyfer penderfynu'r uchafswm ffi (adran 2(3)(b));
- ei bennu yn y modd hwn am gyfnod penodol o amser (adran 2(3)(c)-(e)).

Tystiolaeth gan dystion

5.4. Roedd y cynnig i bennu uchafswm ffi, er iddo gael ei groesawu fel cam tuag at gysondeb, yn destun rhywfaint o bryder. Mae'r memorandwm a ddarparwyd gan Coalition on Charging Cymru yn nodi:

“The regulations must also be clear that any maximum charge set by the Welsh Assembly Government applies for the full range and combination of services a family receives rather than for individual services, to ensure that people's full contribution to local authority organised care does not amount to more than the maximum charge.”¹⁷

5.5. Mae Cynghrair Gofalwyr Cymru yn credu y dylai'r ddarpariaeth fod yn dynnach i nodi'r uchafswm ffi ar gyfer unrhyw gyfuniad o wasanaethau y bydd defnyddiwr gwasanaethau yn eu cael gan gynnwys gwasanaethau gofalwyr.¹⁸

5.6. Roedd rhai'n teimlo y gellid edrych ar unrhyw uchafswm ffi fel lefel darged ar gyfer ffioedd neu ffi safonol.¹⁹ Yn ddamcaniaethol, gallai hyn arwain at sefyllfa waeth i ddefnyddwyr gwasanaethau o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig oherwydd byddai'r ffi yn codi.²⁰

5.7. Mae'r memorandwm gan Coalition on Charging Cymru yn nodi:

“We are concerned also that the proposed maximum weekly charge of £50.00 may be interpreted by local authorities as the standard charge regardless of number of hours care provided or the income of the

¹⁶ Memorandwm Esboniadol, tudalen 23

¹⁷ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12

¹⁸ Gweler hefyd: Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, SCC11

¹⁹ Cynghrair Gofalwyr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SC22 ; Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru; Comisiynydd Pobl Hyn, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC25; Unsain, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC3; Scope Cymru

²⁰ Cynghrair Gofalwyr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SC22

service user. Such a move could leave many disabled people worse off and introduce a new form of inequality where there is inconsistency and variation over the number of hours support bought from the charge imposed, albeit capped at £50 per week.”²¹

5.8. Mynegodd Diane a John Llewelyn, sy’n ddefnyddiwr gwasanaethau ac yn ofalwr, eu pryderon y gallai cyflwyno uchafswm ffi arwain at effaith negyddol. Maent yn nodi:

“We can’t presently identify any practical safeguards to prevent a service user being charged £50 for one hours care.”²²

5.9. Holodd rhai tystion a fyddai’r ddarpariaeth fod yn rhaid iddi fod yn ffi resymol roi digon o sicrwydd yn erbyn y posibilrwydd y bydd awdurdodau lleol yn codi ffioedd nad ydynt yn cyfateb i’r gwasanaethau a geir. Nododd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru:

“There is no definition or legal precedent regarding what is, or is not, a reasonable charge for social care. Any future regulations made by the Minister in respect of this Measure should be mindful of the fact that what is considered to be a reasonable charge from the perspective of a local authority may be completely unreasonable from the perspective of a service user.”²³

5.10. Mae rhai tystion wedi awgrymu y dylai fformiwla neu strwythur ar gyfer cyfrifo uchafswm ffioedd ymddangos ar wyneb y Mesur arfaethedig yn hytrach na rhoi’r pŵer i’r Dirprwy Weinidog benderfynu. Er enghraifft, mae Cynghrair Gofalwyr Cymru yn nodi:

“The Measure should devise a formula or at least a structure for calculating maximum charges rather than deferring the decision to the Minister through Statutory Orders. Reasonable is difficult to define and is open to interpretation.”²⁴

5.11. Mae’r ffaith nad yw’n ofynnol i’r Dirprwy Weinidog gyflwyno uchafswm ffi hefyd yn destun pryder iddi.²⁵

5.12. Mae Coalition on Charging Cymru yn annog yn gryf y dylai’r egwyddor sylfaenol nodi na ddylai unrhyw ddefnyddiwr gwasanaethau fod mewn sefyllfa waeth o ganlyniad i’r Mesur arfaethedig. Awgrymodd hefyd:

“Whatever is introduced, an independent impact assessment needs to be made to see whether it does meet the principles of consistency, simplicity, fairness and efficiency.”²⁶

²¹ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12

²² Diane a John Llewelyn, tystiolaeth ysgrifenedig SCC4

²³ Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig SCC11; gweler hefyd: Age Concern a Help the Aged Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC13

²⁴ Cynghrair Gofalwyr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC22

²⁵ Ibid

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 143, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, 24 Medi 2009; gweler hefyd: Age Concern a Help the Aged Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC13

5.13 Mae Unsain yn gwneud cais tebyg, sef bod yn rhaid i unrhyw system fod yn deg, yn dryloyw ac yn gyson ledled Cymru er mwyn sicrhau mynediad cyfartal”.²⁷

5.14 Mae memorandwm CLILC / ADSS yn nodi:

“We accept that some authorities already set a maximum charge whilst others do not. The power to set a universal maximum charge is clearly an easy way in which to bring some consistency to the system. However, arriving at what that maximum charge should be is not easy. The decision to set this using 2009-10 prices and current levels of demand has some merit in that a time frame needs to be found but we are concerned that levels of demand and the full effects of poor Council settlements may well mask the true costs of these changes that will not become clear for several years.”²⁸

5.15 Mewn perthynas â'r uchafswm ffi wythnosol arfaethedig o £50, maent yn credu bod angen gwneud rhagor o waith er mwyn esbonio pa wasanaethau y dylid eu cynnwys o fewn yr uchafswm ffi hwn a beth fyddai'r swm priodol.²⁹ Mae pob tyst yn cytuno y dylid cynnal ymgynghoriad manwl ar y rheoliadau arfaethedig a'r uchafswm lefel. Mae rhai'n awgrymu y dylid monitro effaith y rheoliadau ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau yn agos unwaith y maent ar waith.

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

5.16. Dywedodd y Dirprwy Weinidog na fyddai'r darpariaethau ar gyfer uchafswm ffi yn dileu disgrisiwn awdurdodau lleol i ddatblygu eu polisïau eu hunain ar gyfer codi ffioedd ac i godi llai am hyn. Nododd:

“in my view, definitely no service user should lose out directly as a result of this proposed Measure.”³⁰

5.17. Eglurodd mai dim ond dau gyngor yng Nghymru sy'n gweithredu uchafswm ffioedd ar hyn o bryd sydd o dan yr uchafswm ffi wythnosol a gynigiwyd ganddi fel rhan o'r Pecyn Gwelliannau Camau Cyntaf (£50 yr wythnos), ond bod Rhondda Cynon Taf wedi cynnig cyflwyno uchafswm ffi o £75 yr wythnos o 1 Awst 2009. Eglurodd fod y canllawiau ar godi ffioedd tecach a gyflwynwyd yn 2002 a'u hehangu yn 2007, eisoes yn diogelu'r rheini sydd ar yr incwm isaf a byddai'r Mesur arfaethedig yn cyflwyno dyletswydd statudol mewn cysylltiad â hyn.³¹

5.18. Nid oedd y Dirprwy Weinidog yn credu y byddai awdurdodau lleol yn defnyddio'r Mesur arfaethedig fel cyfle i bennu uchafswm ffi fel ffi safonol:

“Setting a reasonable charge is also subject to regulations. The existing fairer charging policy is required by law; I think that you are required by law to set a reasonable charge. This proposed Measure does not change

²⁷ Unsain, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC3

²⁸ ADSS Cymru a CLILC, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC8

²⁹ Gweler hefyd: Cyngor Sir Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC10; Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC14

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, 14 Gorffennaf 2009

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 182, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, 1 Hydref 2009

that principle. While considering what a reasonable charge would be, we would not, for example, expect a local authority to charge more than it costs to deliver the service.”³²

5.19. Eglurodd y Dirprwy Weinidog y bydd y rhwymedigaeth hon yn rhoi digon o ddiogelwch i ddefnyddwyr gwasanaethau na fydd yn rhaid iddynt dalu'r gyfradd uchaf waeth beth fo lefel y gwasanaeth a geir. Diystyriodd hefyd unrhyw awgrym y gallai awdurdodau lleol elwa ar y penderfyniad i gyflwyno uchafswm ffi. Y gost i awdurdodau lleol o ddarparu gwasanaethau gofal yw tua £350 miliwn. Caiff y ffioedd eu codi er mwyn talu am tua 10 - 12% o'r gost (£36 miliwn).³³

5.20. Mewn ymateb i alwadau am ofal cartref am ddim, dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oedd dileu'r holl ffioedd yn bosibl o fewn y gyllideb:

“I believe that moving towards consistency and fairer charging is what we can afford to do at present.”³⁴

Ein barn ni

5.21. Er ein bod yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch sut y dylid pennu'r uchafswm ffi, rydym yn fodlon y bydd dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru yn caniatáu digon o hyblygrwydd er mwyn gallu addasu'r polisi ar gyfer codi ffi, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni amcanion polisi Llywodraeth y dydd.

5.22. Fodd bynnag, cytunwn â Coalition on Charging Cymru a'r tystion eraill y dylai egwyddor sylfaenol y Mesur arfaethedig nodi na ddylai unrhyw ddefnyddiwr gwasanaethau fod mewn sefyllfa waeth o ganlyniad i'w gyflwyno. Dylid diwygio'r Mesur arfaethedig i gynnwys yr egwyddor hon.

5.23. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn rhoi disgrisiwn eang i Weinidogion cymru o ran nodi lefel briodol o ffi neu fformiwla. Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i ymgynghori'n eang ar y rheoliadau drafft lle y gellir edrych ar y pryderon a godwyd mewn ffordd briodol.

5.24. Credwn y bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhelir ar gyfer unrhyw reoliadau drafft yn y dyfodol, yn allweddol er mwyn canfod yr opsiwn gweithredu mwyaf effeithiol.

5.25. Er bod crynodeb o ymatebion ymgynghori fel arfer yn cael ei gynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gofynnwn i Weinidogion Cymru ymrwmo i gyhoeddi'r ymatebion unigol i'r ymgynghoriad fel bod modd eu hystyried pan fydd y Cynulliad yn ystyried y rheoliadau drafft unwaith y cânt eu gwneud gan Weinidogion Cymru.

5.26. Credwn y dylai unrhyw reoliadau o dan adran 2 o'r Mesur arfaethedig fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a fyddai'n

³² Cofnod y Trafodion, paragraff 170, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, 1 Hydref 2009

³³ Ibid, paragraffau 179-180

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 46, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, 14 Gorffennaf 2009

rhoi mwy o gyfle i'r Cynulliad graffu ar y Mesur arfaethedig a phenderfynu ar ba mor briodol yw cynigion Gweinidogion Cymru. (Gweler hefyd adran 11 ac adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth).

5.27. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd, rydym hefyd yn argymhell bod Gweinidogion Cymru yn monitro effaith y rheoliadau ac y dylid diwygio'r Mesur arfaethedig i gynnwys dyletswydd i adolygu'r rheoliadau yn flynyddol.

6. Adran 3 – eithrio categorïau o bobl, gwasanaethau neu gyfuniad o wasanaethau rhag codi ffioedd

6.1. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae Adran 3(1) yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n eithrio categorïau penodol o bersonau neu wasanaethau rhag codi ffioedd, er enghraifft, am eu bod yn derbyn budd-dal penodol neu am eu bod wedi cyrraedd oedran penodol.”³⁵

6.2. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cyhoeddi ei bwriad i wahardd awdurdodau lleol rhag codi ffioedd ar gyfer darparu cludiant i ganolfannau dydd fel rhan o'u pecyn arfaethedig cychwynnol o ddiwygiadau, y Pecyn Gwelliannau Camau Cyntaf a gaiff ei gyflwyno o fis Ebrill 2011.

Tystiolaeth gan dystion

6.3. Cafwyd cefnogaeth eang i'r ddarpariaeth hon, ond roedd rhai dystion hefyd yn credu y gallai eithrio grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau drwy'r Mesur arfaethedig arwain at broblemau o ran risg o gamwahaniaethu neu dorri cyfreithiau cydraddoldeb.

6.4. Mae memorandwm Coalition on Charging Cymru yn nodi:

“Removing particular client groups from charging may be in breach of equality laws particularly in relation to age or disability. Furthermore types of service vary amongst service user groups with daycare being more oriented towards people with learning difficulties and some older people, whereas people with physical impairments are more likely to receive support at home...

Thus removing specific services may favour one group of people over another purely on grounds of impairment and historic approaches to service design and delivery.”³⁶

6.5. Mynegodd Mandi Glover, defnyddiwr gwasanaethau, amheuaeth ynghylch y pŵer hwn – roedd yn pryderu y byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru eithrio grwpiau neu wasanaethau penodol rhag codi ffioedd.³⁷

6.6. Yn yr un modd, roedd Cynghrair Niwrolegol Cymru yn pryderu ynghylch y canlynol:

“... that Section 3 [of the proposed Measure] gives a Welsh Minister and the Welsh [...] Government sweeping powers to include or exclude large groups of people who would be excluded from social care charges.”³⁸

6.7. Mae dystion wedi awgrymu y dylai grŵp cynghori annibynnol ystyried penderfyniadau ynghylch eithrio grwpiau a gwasanaethau penodol.

³⁵ Memorandwm Esboniadol, tudalen 24

³⁶ Coalition on charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12

³⁷ Mandi Glover, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC18

³⁸ Cynghrair Niwrolegol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC21

6.8. Galwodd rhai tystion am eithrio grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau ar wyneb y Mesur arfaethedig. Mae memorandwm Cynghrair Gofalwyr Cymru yn nodi:

“Carers should be an excluded group for charging but cannot lose current rights, for example, right to an assessment. This needs to be equality tested and has the potential to discriminate between service users.”³⁹

6.9. Mae Cynghrair Niwrolegol Cymru yn credu y dylid eithrio pobl sy'n byw gyda chyflyrau niwrolegol, yn ogystal â phobl anabl eraill, o'r adran hon. Fodd bynnag, nodwyd eu bod yn cydnabod nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu fforddio eithrio grwpiau mawr o bobl rhag talu'r ffioedd hyn.⁴⁰

6.10. Mae memorandwm CLILC / ADSS yn nodi:

“Whilst we welcome a national approach to allow for clear and defined standards, there is also a need for local flexibility at the point of delivery, in order to decide who is entitled to support and what they are entitled to. Local Authorities will require further detailed guidance; ...In arriving at this decision better population modelling will be essential to understand the true impact and also robust communication and engagement with service users to be able to explain why some are exempt and others are not.”⁴¹

6.11. Mae Cyngor Gofal Cymru yn nodi:

“action may need to be taken to ensure that this [exclusions] does not adversely impact on service provision, e.g., act as a disincentive to the development of “exempted” services where charging policy income is currently relied on to contribute to resourcing the service.”⁴²

6.12. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn gwneud cais arbennig i Lywodraeth Cymru neu bwyllgor y Cynulliad gynnal asesiad effaith cydraddoldeb a hawliau dynol llawn o'r Mesur arfaethedig.⁴³

6.13. Nodwn hefyd sylwadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r Gweinidog:

“we anticipate that, once the Assembly Measure is drawn up, it will be subject to an equality and human rights impact assessment; and will be presented to the policy gateway. We also advocate review by an independent scrutiny committee of AMs, as is the case for Bills in the

³⁹ Cynghrair Gofalwyr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC22; gweler hefyd: Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC11

⁴⁰ Cynghrair Niwrolegol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC21

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, ateb i 2(b); gweler hefyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC14

⁴² Cyngor Gofal Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC1

⁴³ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC25, p7

Westminster Parliament where the Joint Committee on Human Rights fulfils this role for MPs and Peers.”⁴⁴

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

6.14. Pan ofynnwyd a allai'r cynnig i eithrio categorïau penodol o ddefnyddwyr neu wasanaethau dorri cyfreithiau cydraddoldeb, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Equality and the protection of human rights are integral considerations in all of the work of the Assembly Government and, as a result, the stakeholder task and finish group included representation from the Equality and Human Rights Commission. Due to the detailed provision in the revised charging regime, which will primarily be set out in the proposed regulation, it is more appropriate and useful for us to carry out a full equality and human rights assessment as part of the regulation-making process, and we intend to do that.”⁴⁵

6.15 Nid oedd y Dirprwy Weinidog yn credu y byddai'n hanfodol cynnwys trydydd parti i helpu i roi cyngor ar faterion ynghylch cydraddoldeb ond roedd yn agored i awgrymiadau.⁴⁶

6.16. O ran atal taliadau ar ôl rhyddhau cleifion o'r ysbyty, caiff pŵerau i wneud rheoliadau o dan adran 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003 eu defnyddio. Fodd bynnag, eglurodd y Dirprwy Weinidog nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad polisi uniongyrchol i ddefnyddio'r pŵer hwn a chafodd y polisi gofal cartref chwe wythnos am ddim ei weithredu drwy gyflwyno cynllun grant awdurdodau lleol a chanllawiau ategol.⁴⁷

6.17. Eglurodd y Dirprwy Weinidog y rhesymeg y tu ôl i gyflwyno cludiant am ddim i wasanaethau dydd mewn rheoliadau yn y dyfodol fel rhan o'r Pecyn Gwelliannau Camau Cyntaf. Dywedodd:

“Although we do not know exactly how many people use transport to day centres, we know that around 32,000 people in Wales use day services. The cost of introducing this is £1.4 million. Therefore, I think that it would benefit people. There was also the cost of the administration of this—red tape—to collect around 40p a day. Therefore, it is sensible to introduce this, and it was an aspect of the proposed Measure that was welcomed by the task and finish group.”⁴⁸

Ein barn ni

6.18. Credwn y dylai Gweinidogion Cymru gael y pŵer i benderfynu pa gategoriâu o bobl, gwasanaethau neu gyfuniad o wasanaethau y dylid eu

⁴⁴ Adroddiad i'r Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr opsiynau er mwyn cyflwyno mwy o gysondeb mewn codi ffioedd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl, grŵp gorchwyl a gorffen Mesur Cynulliad ar godi ffioedd am ofal cymdeithasol dibreswyl, Chwefror 2009

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 186, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, 1 Hydref 2009

⁴⁶ Ibid, paragraff 188

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, 14 Gorffennaf 2009

⁴⁸ Ibid, paragraff 52

heithrio rhag codi ffioedd. Unwaith eto, bydd hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru addasu'r polisi yn unol ag amgylchiadau sy'n newid.

6.19. Fodd bynnag, rydym hefyd yn pryderu bod y ddarpariaeth hon yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran cydraddoldeb. Felly, credwn y dylai unrhyw reoliadau o dan yr adran hon fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

6.20. Awgrymwn efallai y bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal am ystyried y rheoliadau drafft wrth i Weinidogion Cymru ymgynghori arnynt.

6.21. Dylid ymgynghori hefyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar effaith y rheoliadau drafft, ac ystyried ei farn pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

7. Adran 4 – hawl defnyddwyr gwasanaethau i gael asesiad modd

7.1. Byddai adran 4 yn rhoi'r hawl i'r defnyddiwr gwasanaethau ofyn am brawf modd. Byddai defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn cadw'r hawl i ddewis peidio â chael prawf modd. Ar hyn o bryd, gall awdurdodau lleol gynnig prawf modd, ond nid oes gofyniad arnynt i wneud hyn.

7.2. Mae adran 3.5 o adroddiad asesu sylfaenol LE Wales yn egluro dull awdurdodau lleol o gynnal asesiad ariannol o allu pobl i dalu. Daeth LE Wales i'r casgliad ei fod yn eithaf tebyg i ganllawiau 2007 ar godi ffioedd tecach a'i fod wedi'i lywio gan y rhain.

7.3. Fel rhan o'r Pecyn Camau Cyntaf, mae'r Dirprwy Weinidog wedi cyhoeddi ei bwriad i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiystyru'r Lwfans Gweini Cyson a'r Lwfans Anabledd Difrifol os caiff y Mesur arfaethedig ei gymeradwyo.

7.4 Mae'r ddau fudd-dal ar gyfer pobl sydd angen lefel uchel o gymorth. Telir y Lwfans Anabledd Difrifol i unigolion a gafodd eu hasesu, cyn mis Ebrill 2001, i ddangos eu bod 80 y cant yn anabl ac nad oeddent yn gallu gweithio mwy na 28 wythnos yr wythnos o ganlyniad i anabledd neu salwch. Ni ellir gwneud ceisiadau newydd ar gyfer Lwfans Anabledd Difrifol o hyn allan. Gall pobl anabl sydd angen gofal dyddiol ac sy'n derbyn Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu Bensiwn Anabledd Rhyfel wneud cais am Lwfans Gweini Cyson.

Tystiolaeth gan dystion

7.5. Roedd yr ymatebion gan awdurdodau lleol yn awgrymu ei fod eisoes yn gyffredin i awdurdodau lleol gynnal prawf modd o allu defnyddwyr gwasanaethau i dalu am wasanaethau. Fodd bynnag, nododd Cyngor Sir Caerdydd bryder na fyddai profion modd yn mynd i'r afael â chydardoldeb a thegwch pe bai'r Mesur arfaethedig yn cyflwyno uchafswm ffi y gellir ei godi ar ddefnyddwyr gwasanaethau sydd â chyfalaf dros swm penodol. Byddai hyn, ym marn Cyngor Sir Caerdydd, yn rhoi cymhorthdal i'r rheini sydd â chyfalaf sylweddol am y gwasanaethau y maent yn eu cael.⁴⁹

7.6. Dywedodd Unsain y dylai profion modd ystyried gwariant hanfodol ar fywd a gwres ond dylent hefyd ystyried ffactorau fel y canlynol:

“...factors such as social inclusion, attending education classes, attending activities such as swimming and physiotherapy which are beneficial to people’s health and wellbeing.”⁵⁰

7.7. Roedd Fforwm Pensiynwyr Cymru yn ffyrnig yn erbyn profion modd, gan ddweud:

“...means testing is used too freely as an exclusion tool to prevent those with needs from receiving care services.”⁵¹

⁴⁹ Cyngor Sir Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC10

⁵⁰ UNSAIN Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC3

⁵¹ Fforwm Pensiynwyr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC7

7.8. Dywedodd Cynghrair Niwrolegol Cymru er eu bod yn cefnogi profion modd fel ffordd o sicrhau bod y bobl fwyaf tlawd yn cael eu heithrio rhag talu ffioedd, byddai'n ddymunol i Weinidogion Cymru ddefnyddio rheoliadau i nodi sut y dylid cynnal profion modd.⁵²

7.9. Roedd Unsain hefyd yn nodi y dylai awdurdodau lleol gyhoeddi'r fformiwla a'r nodiadau esboniadol a ddefnyddir gan awdurdod lleol i bennu beth yw cyfraniad rhesymol i anghenion gofal cartref.⁵³

7.10. Roedd nifer o'r ymatebion yn cwestiynu'r budd-daliadau lles hynny a gafodd eu heithrio'n benodol yn y Mesur arfaethedig rhag unrhyw asesiad ariannol a allai gael ei gynnal. Mae Coalition on Charging Cymru yn nodi nad yw Lwfans Anabledd Difrifol bellach ar gael i hawlwy'r newydd ond bod Lwfans Gweini Cyson yn daladwy i leiafrif yr hawlwy'r yn unig. Felly, dim ond nifer cymharol isel o ddefnyddwyr sy'n debygol o fanteisio os caiff y ddau fudd-dal hyn eu diystyru.⁵⁴

7.11. Mae Coalition on Charging Cymru a'r Cynghrair Gofalwyr yn mynegi barn o ran y budd-daliadau y dylid eu diystyru mewn asesiadau codi ffioedd. Mae Coalition on Charging Cymru yn nodi:

"In the task group COCC argued for DLA [Disability Living Allowance], AA [Attendance Allowance] and SDP [Severe Disability Premium] to be disregarded as these would have significant impact on service users and substantially reduce charges payable. It would also recognize that these benefits are paid in recognition of the increased costs associated with being disabled which go beyond care needs."⁵⁵

7.12. Eglurodd Jenny Hambridge, defnyddiwr gwasanaethau, y pwynt hwn yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor:

"It is supposed to contribute to the cost of disability as a whole, not just your care costs, and yet it is seen by most local authorities, because they are allowed to charge against it under the regulations, as being only about care. That does not take into consideration all the costs of disability that we have to bear... We have heard a lot about the cost to local authorities, Government and society, of which we seem sometimes not to be a part. However, we are a part of society, and we have a right to this standard of living as well as the rest of the community."⁵⁶

7.13 Dywedodd Scope Cymru hefyd:

"Disabled people feel very strongly that benefits should not be counted as income when applying the means test (they are in some local authorities) as these monies were intended to pay for other essential items like food and housing costs, not support."⁵⁷

⁵² Cynghrair Niwrolegol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC21

⁵³ UNSAIN Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC3

⁵⁴ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12, p6; hefyd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC14; Mandi Glover, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC18

⁵⁵ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 177-178, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁵⁷ Scope Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC26

7.14. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn, er ei fod yn pwysleisio na ddylid gwahaniaethau ar sail oed yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, yn nodi na fydd incwm y rheini sy'n cael pensiynau galwedigaethol yn cael ei ddiystyru.⁵⁸ Gwnaed yr un pwynt gan Fforwm Pensiynwyr Cymru⁵⁹ a Coalition on Charging Cymru:

"We have also consistently argued that to disregard earned income but not occupational or personal pensions in charging assessments is a clear example of age discrimination and this should be addressed in the Measure or subsequent regulations."⁶⁰

7.15. Mae memorandwm Cynghrair Gofalwyr Cymru yn nodi:

"In the Fairer Charging Policy issued by WAG in 2002 there is a section on page 16 XIV relating to services for carers and we would wish this to be written into the proposed Measure so that it becomes law. We would also wish Carers Allowance (which has replaced Invalid Care Allowance ICA) to be completely exempt from any part of a charge assessment."⁶¹

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

7.16. Fel rhan o'r Pecyn Camau Cyntaf, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ei bwriad i wneud elfennau statudol y canllawiau ar godi ffioedd tecach yn orfodol. Byddai hyn yn sicrhau na all awdurdodau lleol beidio â'u defnyddio.⁶² Ceir amlinelliad o elfennau statudol y canllawiau yn nhystiolaeth ychwanegol y Dirprwy Weinidog ym mis Gorffennaf 2009 (gweler Atodiad 4).

7.17. Eglurodd y Dirprwy Weinidog ddiben adran 4 ac a fyddai'n bosibl ystyried pensiynau:

"This proposed Measure establishes a framework that provides for regulations to be made as to the assessment of a person's means. These could include provision for the exclusion or treatment of certain types of income when assessing an individual's ability to pay service charges. That provision could certainly include pensions. Initially, we are proposing to take the steps that I have outlined to improve the fairness and consistency of charging arrangements, but future Assembly Governments may want to consider whether it would be feasible to also require local authorities to disregard pension income."⁶³

7.18. Mae'r Dirprwy Weinidog yn amcangyfrif mai cost diystyru'r Lwfans Gweini Cyson a'r Lwfans Anabledd Difrifol yw £3.6m.⁶⁴ Dywedodd faint o bobl sy'n cael y lwfansau hyn yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor ar 1 Hydref 2009, fel a ganlyn:

- mae 190 o bobl yn cael y Lwfans Gweini Cyson yng Nghymru;

⁵⁸ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC25

⁵⁹ Fforwm Pensiynwyr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC7

⁶⁰ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12

⁶¹ Cynghrair Gofalwyr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC22

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 112, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁶⁴ Ibid, paragraff 88

- mae 19,900 o bobl yn cael y Lwfans Anabledd Difrifol.⁶⁵

7.19. Eglurodd ei bod wedi dewis y Lwfans Gweini Cyson a'r Lwfans Anabledd Difrifol fel rhan o'r pecyn Camau Cyntaf er mwyn canolbwyntio ar y rheini sydd â'r lefelau uchaf o anabledd. Dywedodd:

“Both allowances will be phased out, but I feel that people who are now in receipt of those allowances should be considered in this proposed Measure.”⁶⁶

7.20. Pan ofynnwyd iddi a oedd wedi asesu effaith diystyru unrhyw fudd-daliadau eraill, fel y Lwfans Byw i'r Anabl, y Lwfans Gweini a'r Premiwm Anabledd Difrifol, eglurodd na fyddai'n fforddiadwy yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a nododd y ffigurau canlynol:

- mae 123,000 o bobl yn cael y Lwfans Gweini yng Nghymru;
- mae 234,650 o bobl yn cael y Lwfans Byw i'r Anabl.⁶⁷

7.21. Fodd bynnag, nid oedd yn hysbys faint o'r bobl hyn oedd yn cael gofal dibreswyl na faint ohonynt oedd yn gorfod talu amdano.⁶⁸

Ein barn ni

7.22. Rydym yn cydnabod barn tystion ar adran 4. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â sut y caiff y profion modd eu gweithredu a pha incwm y gellir ei ddiystyru. Mae'r rhain yn faterion yr ymdrinnir â hwy drwy reoliadau.

7.23. O gofio effaith bosibl y rheoliadau hyn ar safon byw y bobl sy'n cael gofal, rydym yn argymhell y dylai unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 4 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 218, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 104, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 219, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁶⁸ Ibid

8. Adran 5 – darparu gwybodaeth am ffioedd a phroffion modd

8.1. Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ynghylch codi ffioedd a phroffion modd i'r rheini y byddant yn penderfynu codi ffi arnynt. Ceir rhestr o'r wybodaeth a ddarperir yn is-adran 5(4). Gall Gweinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr hon drwy reoliadau.

8.2. Rhaid sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael mewn amryw o fformatau hygyrch, a hynny am ddim ac o fewn un diwrnod ar hugain i'r dyddiad y gosodwyd y ffi y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef (is-adrannau 5(3) a 5(5)).

8.3. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig yn nodi, mewn perthynas â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth am ffioedd a phroffion modd:

“8.14 ... ni ragwelir costau ychwanegol o gwbl i awdurdodau lleol o ran bodloni'r gofynion hyn yn y ddeddfwriaeth arfaethedig.”⁶⁹

Tystiolaeth gan dystion

8.4. Nododd rhai awdurdodau lleol a gyflwynodd tystiolaeth eu bod eisoes yn darparu gwybodaeth o'r fath i ddefnyddwyr gwasanaethau, ond y byddent yn croesawu canllawiau ar yr union fath o wybodaeth y dylent fod yn ei darparu yn y dyfodol.⁷⁰

8.5. Mae tystion wedi mynegi pryder i ni ynghylch darparu gwybodaeth am godi ffioedd yn amserol, mewn fformatau hygyrch ac mewn iaith syml.⁷¹ Nododd MS Society Cymru yn ei thystiolaeth fod defnyddwyr gwasanaethau, yn y gorffennol, wedi cael gwasanaeth gofal heb wybod faint y byddai disgwyl iddynt ei dalu tuag at y gost honno. Felly, mae'n croesawu'r ffaith bod adran 5 wedi'i chynnwys yn y Mesur arfaethedig.⁷²

8.6. Er bod Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn croesawu'r ddarpariaeth yn adran 5 i sicrhau bod y wybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch, mae'n nodi y dylid diwygio adran 5 i gynnwys y ffaith y dylid cynhyrchu fersiynau hawdd eu darllen.⁷³

8.7. Cododd Coalition on Charging Cymru y mater ynghylch darparu gwybodaeth amserol:

“Evidence suggests that service users are unaware of how their charges are calculated and do not know the outcome of the financial assessment until they receive their first invoice usually some weeks from the start of their care package. The Fairer Charging Guidance (2002) included the instruction that: “Charges should not be made for any period before an assessment of charges has been communicated to the user . . .” This has been widely ignored by many local authorities, leading to people facing frighteningly large bills for charges out of the blue. ...COCC would like to see the instruction to not charge for periods before the

⁶⁹ Memorandwm Esboniadol, tudalen 21

⁷⁰ SCC20, p2 a SCC14, para 2(d)

⁷¹ Mandi Glover, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC18

⁷² Multiple Sclerosis Society Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC23

⁷³ SCC11, p5

assessment has been communicated to service users made mandatory.”⁷⁴

8.8. Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru hefyd yn mynnu na ddylid codi ffioedd ôl-weithredol ac y dylid diwygio is-adran 5(1) i'r perwyl hwn. Mae'n credu hefyd na ddylid codi ffioedd ôl-weithredol yn ystod cyfnod apêl.⁷⁵

8.9. Nododd Cymdeithas Gofal Cartref Cymru:

“We have had instances in which people have been re-assessed after a while and have ended up with a big back payment to make. Had they known at the time that it would cost them all that money, they would not have had it...The assessment is sometimes a couple of months down the line, and so people really do not know what they will have to pay. It is of great concern to them.”⁷⁶

8.10. Mae Cynghrair Niwrolegol Cymru yn nodi'r canlynol:

“... [we] would like the proposed Measure to give service users the right to have the information explained face to face by a member of staff, rather than simply relying on written information. Service users are likely to have many questions and should have the right to query charges and their means testing with an individual.”⁷⁷

8.11. Mae ADSS / CLILC yn anghytuno na fyddai unrhyw gostau ychwanegol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â gweithredu adran 5 o'r Mesur arfaethedig. Mae eu memorandwm yn nodi :

“There may be an additional cost to Councils to meet this good practice and we envisage that this will form part of the overall assessment of impact and costs to be reimbursed through moving from one position to the preferred.”⁷⁸

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

8.12. Nododd y Dirprwy Weinidog mai'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth glir oedd un o'r prif negeseuon gan y grŵp gorchwyl a gorffen, a'i fod yn bwriadu adeiladu ar arfer da. Nid oedd yn rhagweld y byddai angen diwygio adran 5 yn rheolaidd, felly, mae'r manylion wedi'u cynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig yn hytrach na'u gadael i reoliadau.⁷⁹

8.13. Cytunodd y Dirprwy Weinidog, yn ddelfrydol, y dylid hysbysu defnyddwyr gwasanaethau ynghylch ffioedd tebygol cyn bod y gwasanaeth yn cychwyn. Nododd:

“Yn ddelfrydol, dylai'r asesiad o ffioedd gael ei gynnal cyn i'r gwasanaeth ddechrau, er nad yw hyn yn angenrheidiol bob amser, a

⁷⁴ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12

⁷⁵ Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC11

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 92, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁷⁷ Cynghrair Niwrolegol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC21

⁷⁸ ADSS Cymru a CLILC, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC8

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

byddwn yn amddiffyn awdurdodau lleol sy'n rhoi gwasanaeth ar waith sy'n amddiffyn unigolyn yn y ffordd orau bosibl. Derbyniaf hefyd y dylai defnyddiwr gwasanaethau, yn ddefnyddol, gael gwybod am y ffi cyn i'r gwasanaeth ddechrau, ond ni chredaf, am y rheswm hwnnw, y byddai'n briodol gosod gwaharddiad ar awdurdodau lleol sy'n pennu ffioedd ar ôl darparu'r gwasanaeth, oherwydd efallai bod rhesymau da dros wneud hynny.”⁸⁰

8.14. Fodd bynnag, nododd ei bod yn bwriadu cyflwyno gwelliannau i'r Mesur arfaethedig neu ddefnyddio rheoliadau i nodi'r amgylchiadau lle y byddai'n rhesymol dechrau gwasanaeth cyn cynnal asesiad o ffioedd.”⁸¹

8.15. Dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oedd yn rhagweld y byddai darparu'r wybodaeth hon yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol gan fod yr angen i ddarparu'r wybodaeth hon wedi'i sefydlu yn 2002 pan gyflwynwyd trefn decach ar gyfer codi ffioedd drwy ganllawiau.⁸² Cyfeiriodd at adroddiad LE Wales sy'n dangos bod pob awdurdod lleol yn darparu rhywfaint o wybodaeth ond bod angen deddfu er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd y wybodaeth a baratoir.

8.16. Dywedodd hefyd, mewn cysylltiad â'r mater hwn:

“we are committed to reimbursing local authorities for the cost of the introduction of the proposed Measure.”⁸³

Ein barn ni

8.17. Rydym yn croesawu'r rhwymedigaeth glir sydd ar awdurdodau lleol i ddarparu'r wybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau hygrych yn y Mesur arfaethedig ac yn argymhell y dylai hefyd gynnwys rhwymedigaeth i'w darparu mewn iaith glir neu fersiwn hawdd ei darllen neu gynnig ei ddarparu wyneb yn wyneb.

8.18. Mae awdurdodau lleol yn credu y gallai'r adran hon arwain at gostau ychwanegol, er y bydd hyn yn amrywio yn unol ag arfer presennol yr awdurdod lleol. Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad Gweinidogion Cymru i ad-dalu awdurdodau lleol y gost o gyflwyno'r Mesur arfaethedig ac y dylid ystyried unrhyw gostau sy'n codi o'r adran hon fel rhan o'r pecyn ad-dalu cyffredinol.

8.19. Rydym yn pryderu y gellir codi ffi ar ddefnyddwyr gwasanaethau weithiau am wasanaethau a gafwyd ganddynt cyn iddynt gael gwybod beth yw canlyniad eu hasesiad ariannol. Felly, rydym yn argymhell y dylid diwygio adran 5 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am ffioedd y bydd disgwyl i'r defnyddiwr gwasanaethau eu talu a chanlyniad unrhyw brawf modd cyn codi'r ffi.

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 232 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁸¹ Ibid, paragraff 234

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 73, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 67, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

9. Adran 6 – yr hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniadau ynghylch codi ffioedd

9.1. Mae adran 6 yn rhoi'r pŵer i Weinidog Cymru wneud rheoliadau ynghylch y trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud ar gyfer adolygu penderfyniadau ynghylch codi ffioedd. Gall y rhain gynnwys rhoi'r hawl i unigolion wneud cais am adolygiad a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i awdurdod eu dilyn wrth gynnal adolygiad.

9.2. Mae adran 3.7.3 o Adroddiad Asesu Sylfaenol LE Wales yn nodi bod yna amrywiaeth sylweddol yn y gweithdrefnau apelio ac adolygu a gynigir gan awdurdodau lleol ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn fodlon ar eu hasesiad codi ffi.⁸⁴

9.3. Mae'n nodi bod gan rai awdurdodau lleol ddull sydd wedi'i strwythuro a'i godeiddio'n dda iawn tra bod eraill yn llai strwythuredig. Mae'n nodi hefyd:

“It is common for the appeals process to have multiple stages, with successive escalation to a higher level of responsibility from one stage to the next...The highest stage of the appeal usually involves the review of the charging assessment by a more senior panel sometimes including independent members. In some instances, the individual is allowed to present their case in person to an appeals panel. If the user is still not happy with the decision by the appeals panel, they can make a formal complaint through a complaints procedure.”⁸⁵

Tystiolaeth gan dystion

9.4. Mae cyflwyniad ar y cyd ASDD / CLILC yn nodi eu bod yn rhagweld y bydd nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n gwneud cais am adolygiad yn debygol o ddirywio o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig:

“We would hope that with simplified and clearer information available in a consistent manner that the number of cases where individuals would seek a review of the charging decision would diminish.”⁸⁶

9.5. Nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen yn glir o ran pam bod angen deddfwriaeth newydd i ddelio ag adolygiadau o benderfyniadau ynghylch codi ffioedd.⁸⁷ Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn awyddus na fyddai unrhyw gynllun newydd yn rhy gymhleth gan olygu na fyddai'n hawdd rheoli'r broses adolygu.⁸⁸

9.6. Mae dystion wedi awgrymu y dylai fod gan ofalwyr ac eiriolwyr yr hawl i wneud cais am adolygiad o'r ffioedd a osodir ar y person y maent yn gofalu amdano. Roedd Cyngor Niwrolegol Cymru yn arbennig am weld gofalwyr yn cael eu cynnwys yn adran 6. Roeddent am weld y ddau gyfeiriad at

⁸⁴ Paragraff 57, *Non-residential social care charges: Baseline assessment, Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru*, LE Wales, Rhagfyr 2008

⁸⁵ Ibid, paragraff 60

⁸⁶ ADSS Cymru a CLILC, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC8

⁸⁷ Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC14

⁸⁸ Cyngor Sir Caerfyrddin, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC15, para 2(e)

“berson” a’r ddau gyfeiriad at “unigolyn” yn adran 6(2) yn cael ei ddiwygio i “unigolyn neu ei ofalwr”.⁸⁹

9.7. Mae Coalition on Charging Cymru a Chynghrair Gofalwyr Cymru yn gwneud sylwadau ynghylch yr angen i wella’r broses apelio. Mae Cynghrair Gofalwyr Cymru yn nodi:

“There seems to be no complaints or appeals procedure built in to the regulations with timescales in order for a service user challenge a local authority decision. Service users should have a right to an independent review/appeal and have independent advocacy/representations at review and appeals. Any panels should not consist entirely of local authority officers and there should be independent panel members to consider reviews/appeals.”⁹⁰

9.8. Mae Coalition on Charging Cymru yn credu bod hwn yn faes y mae angen ei ystyried ymhellach. Dywedir bod angen gwahaniaethu rhwng y gweithdrefnau ar gyfer adolygu, apelio a chwyno. Gofynnir am eglurhad o’r termau a ddefnyddir yn y Mesur arfaethedig ac y dylid amlinellu’r broses yn llawn yn y rheoliadau:

“The words ‘review’, ‘appeal’ and ‘complaints’ are used. I do not know whether the plan was to look at that in the regulations, but if the language is not crystal clear in the proposed Measure, there will be problems in trying to address the regulation.”⁹¹

9.9. Roedd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru hefyd yn credu y dylid diwygio adran 6 i roi hawliau penodol i ddefnyddwyr gwasanaethau o ran gweithdrefn gwyno, yn ogystal ag adolygiad ac apêl, fel gweithdrefnau arbennig: “it is essential that the right to an appeal is specifically entrenched in the Measure”. Roeddent hefyd am weld adran 6 yn cael ei ddiwygio i gynnwys yr hawl am eiriolaeth annibynnol ar wyneb y Mesur arfaethedig.⁹²

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

9.10. Mae’r Dirprwy Weinidog yn credu ei bod yn bwysig cael gweithdrefn adolygu syml oherwydd anghysondeb gweithdrefnau ar draws awdurdodau lleol ac er mwyn peidio ag atal defnyddwyr rhag gofyn am adolygiad.⁹³ Eglurodd hefyd y “byddai defnyddwyr gwasanaethau wrth gwrs yn cadw’r hawl i apelio, hyd yn oed ar ddiwedd proses apelio.”⁹⁴

9.11. Eglurodd ei swyddog beth yw diben yr adolygiad o adran 6:

“Bydd yr adolygiad yn ddull byr a syml o fynd i’r afael â materion fel camgymeriadau mewn cyfrifiadau neu ddarnau coll o wybodaeth. Ei nod yw bod yn broses na fydd yn annog defnyddwyr i beidio â gofyn am adolygiad.”⁹⁵

⁸⁹ Cynghrair Niwrolegol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC21

⁹⁰ Cynghrair Gofalwyr Cymru, , tystiolaeth ysgrifenedig, SCC22,

⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 207, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁹² Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, , tystiolaeth ysgrifenedig, SCC11

⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 247, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

9.12. Dywedodd y Dirprwy Weinidog na ddylai ddileu pwysigrwydd y weithdrefn gwyno. Ei bwriad yw sefydlu grŵp ffocws i edrych ar y manylion y byddai defnyddwyr gwasanaethau yn eu hystyried yn rhai pwysig i'w cynnwys yn y weithdrefn adolygu.⁹⁶ Nid oedd wedi ystyried a ddylai fod hawl i gynrychiolaeth annibynnol mewn unrhyw wrandawriad, ond dywedodd y byddai'n ei ystyried ymhellach.⁹⁷

9.13. O ran a allai gofalwr neu eiriolwr wneud cais am adolygiad ar ran defnyddiwr gwasanaethau, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Fy mwriad fyddai i reoliadau o dan yr adran hon alluogi gofalwyr ac eiriolwyr i ofyn am adolygiad ar ran unigolyn, lle nad oes gan yr unigolyn y gallu i wneud hynny neu ei fod wedi cytuno i rywun wneud y cais ar ei ran.”⁹⁸

Ym marn y Dirprwy Weinidog, gall rheoliadau helpu gofalwyr i wneud y cais.

Ein barn ni

9.14. Rydym yn argymhell y dylid diwygio adran 6 er mwyn egluro bod gofalwyr neu eiriolwr annibynnol yn gallu gwneud cais am adolygiad ar ran y defnyddiwr gwasanaethau.

9.15. Rydym yn cytuno ar y dystiolaeth a gyflwynwyd nad yw'r Mesur arfaethedig yn gwahaniaethu'n glir rhwng hawl i adolygiad syml, a nodir yn y Mesur arfaethedig, a hawl i apêl, a sut y dylai'r dull apelio edrych. Rydym yn cytuno y dylai unrhyw ddull apelio fod yn annibynnol ar awdurdod lleol.

9.16. Felly, rydym yn argymhell y dylid diwygio 6(2) i roi hawl i unigolion apelio sy'n wahanol i adolygiad.

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 250, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

⁹⁸ Ibid, paragraff 242

10. Adran 7 – y gwasanaethau gofal dibreswyl y mae'r Mesur arfaethedig hwn yn gymwys iddynt

10.1. Mae adran 7 yn rhestru'r deddfiadau sy'n nodi'r gwasanaethau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu y mae'r Mesur arfaethedig yn gymwys iddynt.

Tystiolaeth gan dystion

10.2. Mae Coalition on Charging Cymru a Chynghrair Gofalwyr Cymru yn awgrymu y dylid cynnwys Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004 yn y ddeddfwriaeth a enwir yn adran 7.⁹⁹

10.3. Nododd Age Concern Cymru / Help the Aged Cymru a Chynghrair Niwrolegol Cymru ofal seibiant mewn cyfleuster preswyl fel gwasanaeth a ddylai fod o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig. Nododd Cynghrair Niwrolegol Cymru anfodlonrwydd ehangach ynghylch y ffaith bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol ond yn caniatáu i'r Mesur arfaethedig hwn gynnwys ffioedd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl.¹⁰⁰

10.4. Awgrymodd hefyd y dylid rhestru'r Deddfau a ganlyn yn adran 7: Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig) 2003; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001; a Deddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996.¹⁰¹

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

10.5. Eglurodd y Dirprwy Weinidog nad oedd yn briodol cynnwys Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004 yn y rhestr o wasanaethau cymwys yn adran 7:

“Ni chafodd Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004 ei chynnwys yn y rhestr o ddeddfiadau yn adran 7 oherwydd nad yw'n gosod unrhyw bwerau neu ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau. Dim ond y deddfiadau hynny y gellir darparu gwasanaethau oddi tanynt sy'n cael eu rhestru yn adran 7, ond mae'r ddyletswyddau cyfredol i ddarparu gwasanaethau i ofalwyr wedi'u cynnwys yn adran 2 o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000, ac fe'u cynhwysir yn y rhestr yn adran 7.”¹⁰²

10.6. Eglurodd fod y ffioedd ar gyfer gwasanaethau i ofalwyr yn dod o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig. Mae gofal seibiant mewn cyfleuster preswyl y tu allan i gwmpas y Mesur arfaethedig, ond wedi dweud hynny, byddai ffioedd ar gyfer gofal seibiant yn y cartref yn dod oddi mewn iddo.¹⁰³

10.7. Pan ofynnwyd a allai gwasanaethau i blant ddod o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig, eglurodd y Dirprwy Weinidog, er bod gan y Cynulliad bwerau o dan y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i fynd i'r afael â chodi ffioedd

⁹⁹ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12; Cynghrair Gofalwyr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC22; gweler hefyd: NAS Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC11; Mandi Glover, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC18

¹⁰⁰ Cynghrair Niwrolegol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC22

¹⁰¹ Ibid

¹⁰² Cofnod y Trafodion, paragraff 266, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁰³ Ibid, paragraff 149

ar gyfer gwasanaethau i blant, nid oedd yn fwriad ganddo i fynd i'r afael â'r mater hwn:

“Local authorities in Wales currently have limited powers to charge for children’s services, although, in practice, they rarely do so. For that reason, there is currently no issue that the Assembly Government needs to or intends to address by way of legislation with regard to that.”¹⁰⁴

10.8. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog hefyd pam nad yw adran 7 yn cynnwys pŵer i ddiwygio'r rhestr o wasanaethau y mae'r Mesur arfaethedig yn gymwys iddynt, a hynny er mwyn caniatáu i'r Mesur arfaethedig gael ei ddiweddarau yng ngoleuni deddfwriaeth newydd a allai gael ei gyflwyno yn San Steffan.

10.9. Nid oedd y Dirprwy Weinidog yn credu bod hyn yn angenrheidiol gan fod y rhestr yn adran 7 yn gynhwysfawr:

“The Order-making power in sections 10(3) and 10(4) of the proposed Measure may be used to amend the Measure, when it is passed, but only to the extent that such provision is necessary or expedient for the purpose of that Measure. Thus, if one of the listed enactments were to be repealed or revoked and you had an amended enactment that you needed to add to that list, you could do add it under section 10(3)...”¹⁰⁵

Eglurodd pe bai'r pŵer i ychwanegu yn cael ei gynnwys o dan adran 7, byddai'n rhoi pŵer eang i Weinidogion Cymru ehangu cwmpas y Mesur arfaethedig.¹⁰⁶

Ein barn ni

10.10. Rydym yn derbyn sicrwydd y Dirprwy Weinidog fod y rhestr o ddeddfiadau yn adran 7 yn cynnwys yr holl gategorïau o wasanaethau y gall y Mesur arfaethedig fod yn gymwys iddynt, ac y gellir delio ag unrhyw ddiwygiadau i'r Deddfau hynny drwy ddefnyddio pŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio o dan adran 10.

10.11. Er y gall Deddfau eraill fod yn gymwys i wasanaethau a restrir yn y Mesur arfaethedig, fel Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004, gan nad ydynt yn rhestru unrhyw ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau mewn gwirionedd, rydym yn cytuno gyda'r Dirprwy Weinidog y byddai'n amhriodol i'w hychwanegu yn adran 7.

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 252, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁰⁶ Ibid, paragraff 254

11. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ac adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

11.1. Byddai'r Mesur arfaethedig yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu, mewn is-ddeddfwriaeth, gwmpas a lefelau'r ffi y gall awdurdodau lleol eu gosod (ond nid yw'n ofynno iddynt wneud hynny) ar bobl sy'n cael gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl a ddarperir neu a drefnir ganddynt hwy. Gall yr is-ddeddfwriaeth bennu'r uchafswm ffioedd, y bobl a'r gwasanaethau na ellir codi ffioedd mewn cysylltiad â hwy, yr hawl i unigolion sy'n talu ffioedd gael prawf modd a'r trefniadau ar gyfer adolygu penderfyniadau ynghylch codi ffioedd.

11.2. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig yn nodi:

“O ystyried natur yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig, sy'n ymwneud yn bennaf â'r trefniadau ariannol a gweinyddol sy'n rheoli sut gweithredir y drefn codi ffioedd ddiwygiedig, bydd y ddeddfwriaeth, gydag un eithriad, yn gorfod dilyn y **weithdrefn negyddol**. Yr eithriad yw, os bydd yr is-ddeddfwriaeth yn ceisio diwygio Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad, y bydd yn gorfod dilyn y **weithdrefn gadarnhaol**.”¹⁰⁷

11.3. Yn ystod ein sesiynau tystiolaeth, gofynnwyd i randdeiliaid a oeddent yn credu bod yna gydbwysedd priodol rhwng y pwerau ar wyneb Mesurau arfaethedig a'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn gywir.

Tystiolaeth gan dystion:

11.4. Awgrymodd Cyngor ar Bopeth Cymru y dylai fod cyfle arall i yngynghori yn ystod y cyfnod is-ddeddfwriaeth.¹⁰⁸ Awgrymodd Coalition on Charging Cymru y byddai'n rhaid sefydlu grwpiau gorchwyl eraill er mwyn cynhyrchu rheoliadau o ansawdd uchel.¹⁰⁹ Roedd sawl cyflwyniad arall hefyd yn argymhell y dull hwn.

11.5. Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, nododd Coalition on Charging Cymru:

“...if the details are set out in regulations, there is a lot more flexibility in terms of being able to respond to future situations; to put too much detail into the proposed Measure could hinder future Governments in terms of responding to those situations...what is key for us is the regulations that will come from this and how much of that will be made statutory, as opposed to guidance, which is currently the case.”¹¹⁰

11.6. Roedd rhywfaint o bryder nad oedd y Mesur arfaethedig yn cynnwys digon o fanylion a bod gormod yn cael ei adael i is-ddeddfwriaeth. Roedd Cynghrair Niwrolegol Cymru yn feirniadol iawn o'r cydbwysedd rhwng pŵer y

¹⁰⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 5.4

¹⁰⁸ Cyngor ar Bopeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC2, p2

¹⁰⁹ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12, p11

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 124, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

ddeddfwrfa a phŵer Gweinidogion Cymru. Er ei bod yn derbyn ei fod yn briodol dirprwyo pwerau ynghylch profion modd, darparu gwybodaeth ac adolygu penderfyniadau ynghylch codi ffioedd, nododd y canlynol:

“[it is] deeply inappropriate to grant such great powers over the levels of charges and the persons who are excluded from charges.”¹¹¹

11.7. Mae Cyngor Gofal Cymru yn awgrymu bod dull cynyddrannol o weithredu yn briodol. Mae'n nodi hefyd y bydd monitro a gwerthuso'r broses weithredu yn bwysig.¹¹²

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

11.8. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog fod angen hyblygrwydd mewn cysylltiad â'r darpariaethau manwl o dan y Mesur arfaethedig. Dywedodd y byddai angen i Lywodraeth Cymru ailedrych ar y rheoliadau, a hynny'n flynyddol o bosib. Nododd hefyd:

“...y byddai'r defnyddwyr gwasanaethau'n elwa ar fanylder o'r fath yn cael ei chynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig.”¹¹³

11.9. Eglurodd y bydd y rheoliadau hyn yn ymwneud â'r trefniadau ariannol a gweinyddol yn bennaf, felly roedd y weithdrefn negyddol yn briodol.¹¹⁴

11.10. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod ei bod yn hanfodol ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r rheoliadau. Dywedodd y byddent yn dechrau ymgynghori yn ystod haf 2010 ar y rheoliadau drafft. Roedd yn hyderus y byddai'n bosibl cyflwyno'r rheoliadau erbyn mis Ebrill 2011.¹¹⁵

Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

11.11. Yn unol â Rheol Sefydlog 15.6, ystyriodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig a chasglodd dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog ar 30 Medi 2009. Ystyriodd y darpariaethau sy'n dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru a'r gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth. Gosododd y Pwyllgor ei adroddiad gerbron y Cynulliad ar 14 Hydref 2009 (gweler Atodiad 5)¹¹⁶.

11.12. Mae'r Pwyllgor yn gwneud yr argymhellion a ganlyn:

“Argymhelliad 1:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod fformiwla ar gyfer cyfrif o'r uchafswm ffi yn ymddangos ar wyneb y Mesur. Nid yw'r Pwyllgor yn credu y byddai hyn yn cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i bennu uchafswm o £50 yr wythnos ar ffioedd, gan y byddai'n bosibl gosod darpariaeth addas yn y

¹¹¹ Cynghrair Niwrolegol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC21

¹¹² Gweler hefyd: Cyngor ar Bopeth Cymru, SCC2

¹¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 198, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 17, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 11-14, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹¹⁶ Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, Pa mor briodol yw darpariaethau is-ddeddfwriaeth yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru), LD7741, 14 Hydref 2009

Mesur i ddefnyddio fformiwla amgen i'r uchafswm ffi. Gan ystyried natur fframwaith yr adran, ynghyd â'r effaith ariannol y gallai ei gael ar y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae'r Pwyllgor yn argymhell ymhellach y dylai unrhyw reoliadau a wneir o dan Adran 2 o'r Mesur fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn derbyn rhesymau'r Gweinidog dros beidio â chynnwys manylion ar wyneb y Mesur ond, o ystyried ei fframwaith, mae'n argymhell y dylai'r ddarpariaeth o dan adran 3 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i eithrio rhai personau a rhai gwasanaethau o dalu'r ffi fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 3

O ystyried natur fframwaith y Mesur, ynghyd â'r effaith posibl y gallai ei gael ar y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y gyfres gyntaf o reoliadau a wneir o dan y Mesur yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol."

Ein barn ni

11.13. Rydym yn nodi argymhellion y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, yn arbennig y ffaith y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys i bwerau gwneud rheoliadau o dan adrannau 2 a 3.

11.14. Rydym yn cefnogi argymhellion a chasgliadau'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth (yn ddarostyngedig i'n hargymhellion ar adran 2, paragraffau 5.21-5.27 uchod). Fel y nodir uchod ym mharagraff 7.23, rydym hefyd yn argymhell y dylai unrhyw reoliad a wneir o dan adran 4, profion modd, fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

12. Goblygiadau ariannol a goblygiadau ehangach y Mesur arfaethedig ac adroddiad y Pwyllgor Cyllid

12.1. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth a ganlyn am oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig:

“Ar wahân i'r gofyniad i ddarparu'r wybodaeth a nodir uchod, caiff yr elfennau eraill o unrhyw drefniadau diwygiedig o ran codi ffioedd eu nodi mewn rheoliadau a chanllawiau i'w llunio o dan y Mesur arfaethedig. Caiff unrhyw gostau gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol fel colli incwm a chostau gweinyddol a TG sy'n gysylltiedig â'r newidiadau eu hasesu yn unol â hynny fel rhan o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth honno.”¹¹⁷

12.2. Mewn perthynas ag adran 5 ar ddarparu gwybodaeth am ffioedd, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“...ni ragwelir costau ychwanegol o gwbl i awdurdodau lleol o ran bodloni'r gofynion hyn yn y ddeddfwriaeth arfaethedig.”¹¹⁸

Tystiolaeth gan dystion

12.3. Mae awdurdodau lleol yn pryderu ynghylch goblygiadau ariannol pennu trothwy ar gyfer y ffi y gellir ei godi ar ddefnyddwyr gwasanaethau.¹¹⁹

12.4. Mynegodd ADSS / CLILC yn eu hymateb ar y cyd, ynghyd â sawl tyst arall, eu pryder ynghylch cynaliadwyedd ariannol y polisi sydd y tu hwnt i'r ymrwymiad a roddir gan Lywodraeth Cymru o dan gytundeb Cymru'n Un.¹²⁰ Gofynnwyd pa warant a fyddai ganddynt y tu hwnt i'r 2 neu 3 blynedd gychwynnol o weithredu'r Mesur arfaethedig.

12.5. Mae ADSS / CLILC yn pwysleisio'r angen am iawndal addas a gofynnwyd sut y byddai pobl yn cael iawndal ac o ble y byddai'r arian yn dod. Roedd ADSS / CLILC yn pryderu y byddai Llywodraeth Cymru, wrth ad-dalu awdurdodau lleol am y golled incwm a ddaw yn sgil codi ffioedd, yn lleihau'r adnoddau cyffredinol a ddarperir iddynt ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol:

“...we urgently need assurances that if this money is to be found, it must be additional; it cannot come out of the totality of the pot that goes to local government now, because there simply is not enough.”¹²¹

12.6. Roedd ADSS / CLILC hefyd yn credu ei fod yn debygol y byddai rhai awdurdodau lleol yn anochel yn dechrau codi ffi uwch am wasanaethau ac o bosib yn gorfod adolygu'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir os ydynt yn mynd i golli incwm, hyd yn oed os cânt iawndal am hynny.¹²² Mynegir pryderon difrifol ganddynt ynghylch gallu awdurdodau lleol i weithredu trefn newydd ar gyfer codi ffioedd a chynnal lefelau gwasanaeth presennol:

¹¹⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.15, tudalen 21

¹¹⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.14, tudalen 21

¹¹⁹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC14

¹²⁰ Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC14

¹²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 20, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, 24 Medi 2009

¹²² Ibid, paragraff 33

“We are deeply concerned about the affordability of the measures in the current financial climate, particularly where authorities are under pressure to make savings at the risk of reduced service provision...Any reduction in potential income will impact negatively on the ability to maintain existing services.”¹²³

12.7. Roeddent hefyd yn amau ai dyma oedd y ffordd orau o ddefnyddio adnoddau cyfyng y Llywodraeth:

“...we must emphasise again that of the 66,000 people who receive community based services only 14,000 are charged (less than 25%). There is an argument that the additional costs to the National Assembly Government (estimated a minimum of £12million per year) could be spent on allowing more people to receive a service if this additional money was made available to social services departments. Spending the money in this way does seem to add even greater barriers to extending the services currently on offer.”¹²⁴

12.8. Pan ofynnwyd o ble y byddai modd dod o hyd i'r gyllideb ar gyfer ariannu'r ad-daliad, soniodd CLILC am brofiad blaenorol o rowndiau cyllido lle y brwydrwyd i gadw grantiau:

“The joint special working grant, for example, is worth about £10 million, and it came under considerable pressure last year to be reduced, and that would have had an awful impact on day-to-day services. Is that going to be an easy target when the Government looks for the £11 million or £13 million to fund this? All you will do is take money from one area to give to another. So we urgently need assurances that if this money is to be found, it must be additional...”¹²⁵

12.9. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Hydref, soniodd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, am ddau grant i wasanaethau cymdeithasol a ddaw i ben yn 2011, a gadarnhawyd yn ddiweddarach fel y grant hyrwyddo annibyniaeth a lles a'r grant ar gyfer cydweithio, a fyddai'n rhyddhau adnoddau i ariannu'r ad-daliad i awdurdodau lleol (gweler paragraffau 12.31 – 12.32 isod).

12.10. Ysgrifennwyd at Gymdeithas Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ofyn am eu barn ynghylch gwerth y grantiau hyn i awdurdodau lleol ac effaith diddymu'r grantiau hyn ar wasanaethau gofal. Roedd ADSS Cymru / CLILC yn pryderu'n arbennig ynghylch diddymu'r grant ar gyfer cydweithio:

“We understand the pressure on the public purse and wish to work constructively with the Assembly Government to make best use of the diminishing resources. It seems counter intuitive to be moving towards a scenario where we are closing down or diminishing services that will need to be at the heart of a modernised health and social care service.

¹²³ ADSS Cymru a CLILC, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC8

¹²⁴ Ibid

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 20, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, 24 Medi 2009

If this funding ceases in 2012, the impact on service uses, partnerships and locality based early intervention schemes would be catastrophic.¹²⁶

12.11. Pwysleisiwyd yr angen am ragor o drafodaeth ynghylch sut y byddai'r ad-daliad yn cael ei gyfrifo a nodwyd y byddai awdurdodau lleol sy'n llwyddo i godi ffi sy'n is na'r uchafswm ffi ar hyn o bryd yn cael llai o iawndal na'r rheini sy'n codi'r ffi uchaf. Awgrymodd y Comisiynydd Pobl Hŷn y dylid cyfeirio at weithdrefn ar gyfer adolygu anghydfodau ynghylch ad-daliadau ar wyneb y Mesur.¹²⁷

12.12. Mae ADSS / CLILC yn nodi'r gost unigryw a fyddai'n ofynnol yn sgil unrhyw newidiadau deddfwriaethol wrth ailgyfrifo cyfraniadau unigol defnyddwyr gwasanaethau; y gost o adolygu prosesau gwybodaeth a chyfathrebu awdurdodau lleol; a'r gost o roi dull ar waith i sicrhau yr ymddrinnir â'r newidiadau yn ddidrafferth.¹²⁸

12.13. Dywedodd Cyngor Sir Môn y dylai fod modd gweinyddu unrhyw system newydd yn effeithiol:

"...as it would be counterproductive to spend money on bureaucratic collection or assessment procedures which will cost more to manage."¹²⁹

12.14. Caiff y gost ariannol bosibl i awdurdodau lleol ei chydabod gan awdurdodau lleol ond hefyd mewn tystiolaeth gan eraill. Mae Unsain, er enghraifft, yn nodi:

"..additional financial pressures may lead to local authorities seeking more competitive prices for home care provided by external companies. Unison has concerns [about the] potential impact this may have upon the staff employed by such companies and fears that any cost would be borne by the staff."¹³⁰

12.15. Mae Coalition on Charging Cymru yn credu bod y Mesur arfaethedig yn debygol o effeithio'n uniongyrchol ar ei aelodau sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth wrth i ddefnyddwyr gwasanaethau ac eraill geisio deall mwy am y system newydd, a gallai hyn effeithio ar gapasiti'r sefydliadau.¹³¹

12.16. Adleisiwyd y farn hon mewn nifer o ymatebion. Pwysleisiodd y Comisiynydd Pobl Hŷn yr angen i gyfathrebu gyda phobl hŷn ynghylch y newidiadau a fydd yn digwydd yn sgil hyn:

"Er y bydd yn dda gan lawer o bobl hŷn bod cost wythnosol eu gofal yn gostwng, mae'n bosibl y byddan nhw'n dyfalu tybed a fydd lefel y gwasanaeth y maen nhw'n ei gael yn gostwng hefyd."¹³²

¹²⁶ ADSS Cymru a CLILC: Dwyn grant arbennig ar gyfer cydweithio i ben, tystiolaeth ysgrifenedig bellach, SCC28

¹²⁷ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC25

¹²⁸ Gweler hefyd: Cyngor Sir Casnewydd, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC20

¹²⁹ Cyngor Sir Ynys Môn, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC5

¹³⁰ UNSAIN Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC3

¹³¹ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12

¹³² Comisiynydd Pobl Hŷn, SCC25

12.17. Nododd sawl tyst y gydberthynas rhwng gofal iechyd a gaiff ei ariannu'n llawn a gofal cymdeithasol yn y gymuned. Mae CLILC / ADSS yn nodi:

“The distinction between fully funded health care and means tested social care is not straightforward. It will be essential that community based services and how they are funded is clear to the service recipient and their families and that clear boundaries exist between free at the point of delivery to all for healthcare and means tested for social care.”¹³³

12.18. Gall hefyd arwain at fwy o bwysau ar y gyllideb iechyd os caiff gwasanaethau eu torri¹³⁴, fel yr eglura Coalition on Charging Cymru:

“...it can be presumed that further pressure will be placed on services to shunt costs to health via the continuing care route. This has been the case within several areas concerning people with physical impairments and learning difficulties.”¹³⁵

12.19. Mae llawer dal yn mynnu y dylid anelu at roi gofal cymdeithasol am ddim i bawb ac yn credu bod angen trafod y mater yn ehangach. Gallai hyn ddigwydd yn sgil Papur Gwyrdd Llywodraeth y DU ar godi ffioedd tecach.¹³⁶

Effaith bosibl ar y meini prawf cymhwyster

12.20. Mynegodd sawl tyst bryder y gallai'r incwm is sy'n deillio o'r drefn newydd ar gyfer codi ffioedd olygu bod awdurdodau lleol yn ceisio rheoli'r galw am wasanaethau, er enghraifft, drwy godi'r meini prawf trothwy. Gall disgrisiwn awdurdodau lleol i bennu eu meini prawf cymhwyster eu hunain arwain at weld anghysonderau'n parhau ar draws awdurdodau lleol.¹³⁷

“It is happening more and more across Wales. The eligibility criteria are critical in nearly all local authorities. It is interpreted as being as near to the undertaker as you can get. You have already heard evidence that there is a genuine crisis in funding for the services. We are cognisant of that fact, but the fear is that to compensate for lack of income, local authorities will raise the threshold for access to services even higher.”¹³⁸

12.21. Dywedodd Coalition on Charging Cymru yn ei femorandwm:

“Should local authorities tighten their eligibility criteria, this may result in service users facing a reduction in services with an impact on family members and concern and anxiety about how they will manage.”¹³⁹

¹³³ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ADSS, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC8

¹³⁴ Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC11

¹³⁵ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12

¹³⁶ Unsain, SCC3

¹³⁷ Cyngor Gofal Cymru, Coalition on Charging Cymru, Cyngor Niwrolegol Cymru, Cyngor Gofalwyr Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, Cymdeithas Gofal Cartref Cymru; Age Concern Cymru / Help the Aged Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC13; Scope Cymru

¹³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 151, 24 Medi 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹³⁹ Coalition on Charging Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC12

12.22. Cytunodd Cymdeithas Gofal Cartref Cymru, ar sail ei thystiolaeth ei hun, mai canlyniad posibl cyflwyno uchafswm ffioedd oedd hyn. Dywedodd ei bod eisoes wedi gweld hyn yn digwydd ac wedi galw am unffurfiaeth wrth asesu meini prawf hefyd.¹⁴⁰

“Our criteria for care now relate more to district nursing tasks. Our staff are not carers any more; they are unpaid district nurses, whether we like it or not.”¹⁴¹

12.23. Roedd Cyngor ar Bopeth Cymru yn pryderu ynghylch effaith bosibl hyn ac nad yw'r amcan o leihau gwahaniaethau mewn lefelau o godi ffioedd yn cael ei negyddu gan amrywiaeth yn lefel ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.¹⁴²

Effaith bosibl ar y galw am wasanaethau

12.24. Gwnaed sylwadau gan sawl tyst ynghylch y tebygolrwydd y bydd cynnydd yn y galw am asesiad gofal ac asesiad ariannol o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig ac y dylid ystyried hyn wrth asesu goblygiadau ariannol yn y dyfodol.¹⁴³

12.25. Yn eu tystiolaeth lafar, nododd CLILC / ADSS fod angen ystyried newidiadau demograffig yn y dyfodol a gwell gwybodaeth ynghylch modelu poblogaeth. Gwnaed sylw tebyg gan Gyngor Gofal Cymru:

“In progressing the Measure, it is important to consider what society will be like in the (not too distant) future, for example, increased numbers of older people and an increased demand on social care services and new types of services . It may be useful to test the Measure against the new framework of services being considered for older people (led by Graham Williams).”¹⁴⁴

12.26. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Gofal Cartref Cymru yn nodi:

“It was observed that when a charging policy was introduced in North Wales some years ago (initially all care was free) people who then had to start paying privately often reduced their care package. It is probable in areas where reduced payments may occur there may be increased demand, and the reverse where charges increase.”¹⁴⁵

12.27. Yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd fod rhai unigolion yn canslo neu'n gwrthod gwasanaethau ar sail costau, neu'n cysylltu â'r darparwyr gwasanaethau yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy wasanaethau cymdeithasol os yw eu cyfraddau yn is.¹⁴⁶ Holodd a oedd y ffigur yn Asesiad Sylfaenol LE Wales yn adlewyrchiad cywir o'r realiti ar lawr gwlad.¹⁴⁷ Mae'r

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁴¹ Ibid, paragraff 53

¹⁴² Cyngor ar Bopeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC2

¹⁴³ Cyngor Sir Ynys Môn, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC5; Cyngor Sir Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC10;

¹⁴⁴ Cyngor Gofal Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC1

¹⁴⁵ Cymdeithas Gofal Cartref Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC27

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 40-41 and 120, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5; gweler hefyd:

Cymdeithas Genedlaethol Awtistaeth Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC11

¹⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 113, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

ffigur dan sylw yn cyfeirio at gofnodion pum awdurdod lleol sy'n dangos mai dim ond 0.3% i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n gwrthod gwasanaeth o ganlyniad i lefel y ffioedd. Dywedodd Scope Cymru hefyd fod cost gwasanaethau yn aml yn waharddedig.¹⁴⁸

12.28. Mae Cyngor Sir Wrecsam yn pryderu y bydd unrhyw gynnydd mewn galw yn effeithio ar y farchnad gofal cartref. Mae Cyngor Sir Casnewydd yn nodi:

“NCC would argue that the take up of services will increase (or, more accurately, existing services will not be cancelled due to financial reasons) as a result of a more generous charging policy and this should also be recognised. There needs to be a flexible funding mechanism in place that can react to this added burden on Local Authorities' budgets.”¹⁴⁹

12.29. Roedd Cyngor Sir Caerdydd hefyd yn pryderu y byddai cynnydd yn y galw am wasanaethau a allai:

“...impact directly on those who have less means if the service resources have to support a greater number of service users. It would also create a greater disparity between those who need residential and nursing care home provision who currently have to pay for the full cost of their care if they have over the current capital limits. This again may result in extra demands on non-residential care services.”¹⁵⁰

12.30. Mae memorandwm ADSS / CLILC yn awgrymu y gallai hefyd beri problemau i'r rhannau hynny o Gymru sy'n ffinio â Lloegr:

“Councils which straddle this border or are already known 'retirement' spots are rightly concerned that positive changes to social services charging in Wales alone, and not enjoyed by England may well influence the totality of older people choosing to live and retire in Wales. Overall this will have positive and negative implications, as not all older people will need services or indeed be eligible for charges, but in the context of these discussions it is a relevant observation.”¹⁵¹

Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog

12.31. Nododd y Dirprwy Weinidog mai'r gost a amcangyfrifir ar gyfer gweithredu'r Pecyn Camau Cyntaf yw £11 miliwn. Y gost o ddiystyru'r ddau lwfans arfaethedig yw tua £3.6 miliwn; y gost o ddarparu cludiant am ddim i ganolfannau dydd fydd £1.4 miliwn, ac amcangyfrifir mai'r gost o gyflwyno'r ffi o £50 wythnosol (ad-daliad am golli cyflog) fydd £6 miliwn.¹⁵²

12.32. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi rhoi sicrwydd bod yna ymrwymiad i ad-dalu awdurdodau lleol am gost y Mesur arfaethedig. Yn ei llythyr at y Pwyllgor, dywedodd:

¹⁴⁸ Scope Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC26

¹⁴⁹ Cyngor Sir Casnewydd, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC20

¹⁵⁰ Cyngor Sir Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC10

¹⁵¹ ADSS Cymru / CLILC, tystiolaeth ysgrifenedig, SCC8

¹⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

“...dan ein Cytundeb Partneriaeth gyda llywodraeth leol, rydym wedi ymrwymo i ad-dalu i awdurdodau lleol gost unrhyw faich ariannol ychwanegol rydym yn ei roi arnynt. O ganlyniad, os cytunir ar y Mesur arfaethedig, byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol i gytuno ar fanylion a lefel yr amcangyfrif hwn, yn ogystal â'i ailbrisiu ar sail prisiau 2011-2012 gan mai dyna pryd y bwriedir rhoi'r newidiadau ar waith. Bydd yr ailbrisiad yn rhoi sylw i chwyddiant, newidiadau i lefel budd-daliadau'r DWP ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill a fyddai'n effeithio ar yr amcangyfrif hwn..”¹⁵³

12.33. Dywedodd y byddai'r ad-daliad hwn yn ychwanegol i'r gyllideb gwasanaethau cymdeithasol graidd:

“Gwyddom y bydd setliadau ariannol yn mynd yn anoddach, felly bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, gwyddom hefyd y bydd dau grant yn dod i ben yn 2010-11, a byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni. Bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd.”¹⁵⁴

12.34. Cafodd ei egluro'n ddiweddarach mai'r grantiau hyn oedd y grant hyrwyddo annibyniaeth a lles a'r grant ar gyfer cydweithio, sef cyfanswm o £4.5 miliwn a £10 miliwn yn y drefn honno.

12.35. Ar y pwynt penodol o ran a fyddai'r system ad-dalu yn annheg i awdurdodau lleol sydd wedi ceisio cadw eu ffioedd yn isel neu o dan yr uchafswm ffi, eglurodd y Dirprwy Weinidog fod eisoes cynsail i'r dull hwn gan ei fod wedi cael ei brofi gan y fenter codi ffioedd tecach a gyflwynwyd yn 2007.¹⁵⁵

12.36. Dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oes tystiolaeth gref i awgrymu y byddai cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau o ganlyniad i weithredu'r Pecyn Gwelliannau Camau Cyntaf arfaethedig:¹⁵⁶

“Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar yr ymchwil a gynhaliwyd gan LE Wales fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Mesur arfaethedig hwn, mae'n annhebygol iawn y bydd y galw am wasanaethau'n cynyddu. Credaf imi amlinellu yn y llythyr i'r pwyllgor fod angen ystyried nifer o ffactorau mewn perthynas â'r mater hwn, gan gynnwys gallu'r defnyddwyr gwasanaethau i fodloni meini prawf cymhwysedd awdurdod lleol. Yr ydym wedi dychwelyd at y pwynt hwn eto. I gael y gwasanaethau, bydd rhaid iddynt fodloni'r meini prawf cymhwysedd hynny. Yr oedd ymchwil LE Wales a'r cyngor gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn nodi nad oes galw sylweddol nas diwallwyd am wasanaethau.”¹⁵⁷

12.37. Eglurodd y bydd y meini prawf cymhwyster yn parhau o fewn disgrisiwn awdurdodau lleol ac y tu allan i gwmpas y Mesur arfaethedig. Yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar hyn, “Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion: Creu System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli

¹⁵³ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog, Gorffennaf 2009 (gweler Atodiad 4)

¹⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 194, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 36, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁵⁶ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog, Gorffennaf 2009 (gweler Atodiad 4)

¹⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 212, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Gofal”, mae gan awdurdodau’r disgresiwn i bennu eu meini prawf cymhwyster eu hunain ar gyfer mynediad at wasanaethu sydd wedi’i seilio ar sut y caiff anghenion gofal unigolyn eu dosbarthu.¹⁵⁸ Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod na fydd y Mesur arfaethedig yn cael gwared ar yr holl anghysonderau gan nad dileu disgresiwn awdurdodau lleol yw’r bwriad.¹⁵⁹

12.38. Mae’r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Dirprwy Weinidog hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddata ar y galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol yn yr Alban yn dilyn cyflwyno gofal personol am ddim. Cynyddodd nifer y bobl a oedd yn cael arian cyhoeddus ar gyfer gofal personol yn y cartref o 27,337 yn 2002 i 41,386 yn 2007.¹⁶⁰

12.39. Roedd y Dirprwy Weinidog hefyd yn agored i ystyried unrhyw dystiolaeth am y posibilrwydd o gynnydd mewn galw a ddarparwyd gan lywodraeth leol a byddai’n ystyried hyn fel rhan o’r broses o ddatblygu Rheoliadau drafft dilynol i ymgynghori arnynt.¹⁶¹

12.40. Roedd y Dirprwy Weinidog hefyd yn cydnabod y byddai newid demograffig yn effeithio ar gost darparu gofal yn ystod y 10-15 mlynedd nesaf. Cyfeiriodd at Bapur Gwyrdd Llywodraeth y DU ar “Shaping the Future of Care Together”, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, a fydd yn edrych ar yr adnoddau sydd eu hangen ar wasanaethau cymdeithasol yn ystod y degawd nesaf. Mae hefyd yn bwriadu cyhoeddi ei Phapur Gwyrdd ei hun i Gymru ar dalu ar gyfer gofal yn ystod yr hydref:

“I see this proposed Measure as a way of bringing forward improvements for service users now and not waiting for the full effects of the White Paper that will follow the Green Paper.”¹⁶²

Ein barn ni

12.41. Nodwn y dystiolaeth gan awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol ac asiantaethau gofal ynghylch effaith bosibl y Mesur arfaethedig ar wasanaethau gofal awdurdodau lleol. Rydym yn rhannu eu pryderon y gallai’r Mesur arfaethedig, os caiff ei roi ar waith, ac os nad yw’r addaliad yn ddigonol, arwain at awdurdodau lleol yn codi’r meini prawf cymhwysar ar gyfer gwasanaethau gofal, gan gyfyngu ar yr hyn sydd ar gael i’r rheini sydd mewn angen.

12.42. Yn unol â’r hyn a gaiff ei argymhell uchod ym mharagraff 5.22, mae ein barn na ddylai unrhyw ddefnyddiwr gwasanaethau fod mewn sefyllfa waeth o ran y swm y mae’n ei dalu ar gyfer gwasanaethau yr un mor gymwys fan hyn. Ni ddylai unrhyw ddefnyddiwr ddioddef gostyngiad yn lefel y gwasanaethau y mae’n eu cael.

12.43. Rydym yn sylweddoli na fydd y Mesur arfaethedig yn effeithio ar ddisgresiwn awdurdodau lleol i bennu eu meini prawf cymhwyster eu hunain, gan nad yw o fewn cwrmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, credwn y dylai Llywodraeth Cymru anelu at

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 206, 1 Hydref 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

¹⁵⁹ Ibid, paragraff 174

¹⁶⁰ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog, Gorffennaf 2009 (gweler Atodiad 4)

¹⁶¹ Ibid

¹⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 93, 14 Gorffennaf 2009, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

sicrhau lefel uwch o gysondeb ledled Cymru yn y maes hwn hefyd. Fel arall, bydd yr annhegwch hwn yn parhau. Felly, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru geisio cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn hefyd.

12.44. Yng ngoleuni'r pryderon hyn a'u canlyniadau ariannol posibl, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd ymrwymiad Gweinidogion Cymru i ad-dalu cost unrhyw faich ariannol ychwanegol i awdurdodau lleol, fel y nodir uchod ym mharagraff 12.30. Nodwn bryderon CLILC / ADSS Cymru na ddylai hyn fod ar draul ariannu gwasanaethau presennol yn y dyfodol y credir eu bod yn hanfodol.

12.45. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig (gweler Atodiad 6).

12.46 Nodwn safbwyntiau rhai tystion fod y Mesur arfaethedig yn debygol o arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau.

12.47. Mae Darren Millar am nodi ei bryder ynghylch canlyniadau posibl hyn ar ba mor fforddiadwy a chynaliadwy yw'r polisi hwn, a hynny pe bai llawer mwy o bobl sydd angen gofal yn cael eu denu i fyw yng Nghymru yn dilyn gweithredu'r Mesur arfaethedig.

Atodiadau

Atodiad 1: Llythyr ymgynghori gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru)

Atodiad 2: Rhestr o ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth ychwanegol

Atodiad 3: Rhestr o'r dystiolaeth lafar

Atodiad 4: Tystiolaeth ysgrifenedig atodol gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gorffennaf 2009

Atodiad 5: Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur arfaethedig

Atodiad 6: Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Mesur arfaethedig

Atodiad 7: Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arfaethedig

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5
Legislation Committee No.5



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

7 Gorffennaf 2009

Annwyl Syr / Madam

**Ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig ynghylch codi ffioedd am ofal
cymdeithasol (Cymru)**

Mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol y [Mesur arfaethedig ynghylch codi ffioedd am ofal cymdeithasol](#) a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ar 29 Mehefin 2009 (y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yw 28 Awst 2009).

Beth yw Mesur?

Darn o ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad yw Mesur. Mae iddo effaith debyg i Ddeddf Seneddol. Gall y Cynulliad basio Mesurau ar unrhyw 'fater' sydd o fewn ei gymhwysedd deddfwriaethol (yn unol â'r hyn restrir yn [Atodlen 5](#) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.). Mae'r Mesur arfaethedig ynghylch codi ffioedd am ofal cymdeithasol (Cymru) yn seiliedig ar y cymhwysedd deddfwriaethol a roddwyd i'r Cynulliad yn dilyn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Gofal Cartref (Mehefin 2008) mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chodi tâl am Ofal Cymdeithasol Dibreswyl.

Tra bod Mesur yn mynd trwy'r Cynulliad, fe'i elwir yn 'Fesur arfaethedig'.

Mae pedwar cyfnod yn y broses ar gyfer ystyried Mesur arfaethedig. Yn ystod Cyfnod 1, mae'r pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig (gan gymryd tystiolaeth ysgrifenedig gan bartïon sydd â diddordeb a rhanddeiliaid - sef pwrpas y llythyr hwn - a chymryd tystiolaeth lafar) ac mae'r Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny.

Beth mae'r Mesur arfaethedig am ei gyflawni?

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn datgan:

"Prif swyddogaeth y Mesur arfaethedig ynghylch Ffioedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Mesur") yw galluogi a grymuso. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi, mewn is-ddeddfwriaeth ac mewn canllawiau, fanylion fframwaith tecach, mwy

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: apslegislationcommitteeNo5@wales.gsi.gov.uk

cyson i awdurdodau lleol eu mabwysiadu wrth godi ffioedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau unigol am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl.”

Beth yw rôl y pwyllgor?

Rôl Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

I ystyried:

- i) Yr angen am Fesur arfaethedig i gyflawni'r amcanion isod:
 - cyflwyno trefn newydd ar gyfer codi ffioedd a fydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn mabwysiadu dull mwy cyson o godi ffioedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau am ofal cymdeithasol dibreswyl;
 - sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a fydd yn caniatáu i ddarpariaethau manwl gael eu nodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a chanllawiau statudol i'w llunio o dan y Mesur, gan ymdrin â'r mathau o wasanaethau na ellir codi ffioedd amdanynt neu grwpiau'r cleientiaid na ellir codi ffioedd arnynt, y ffi safonol neu uchaf a'r broses asesu ariannol (profion modd);
 - sefydlu dull clir a chyson mewn perthynas â'r wybodaeth y mae defnyddwyr yn ei chael gan awdurdodau lleol am eu ffioedd a'r ffordd y caiff ceisiadau i'w hadolygu eu trin.
- iii) y darpariaethau allweddol a nodir yn y Mesur arfaethedig ac a ydynt yn briodol er mwyn sicrhau y caiff ei amcanion datganedig eu cyflawni;
- iv) rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Mesur arfaethedig yn eu hystyried;
- v) safbwyntiau rhanddeiliaid y bydd rhaid iddynt weithio o dan y trefniadau newydd.

Sut y gallwch helpu – y cwestiynau ymgynghorol

Ceir manylion y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ef ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-scc-2.htm>

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei waith o graffu ar y Mesur arfaethedig. Yn arbennig, byddai'n croesawu eich sylwadau ar y pwyntiau a restrir yn **Atodiad 1**.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad i apslegislationcommitteeNo5@wales.gsi.gov.uk a rhowch "Ymgynghoriad - y Mesur arfaethedig ynghylch codi ffioedd am ofal cymdeithasol" fel pennawd i'r e-bost.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Olga Lewis, Dirprwy Clerc y Pwyllgor, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 28 Awst 2009. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y **broses ddeddfwriaethol** yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm>


Wrth baratoi eich tystiolaeth, dylech ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- dylai eich ymateb fynd i'r afael â'r materion sydd gerbron y Pwyllgor. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb;
- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad, neu fel unigolyn;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ac efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn eu gweld a'u trafod yn ystod cyfarfodydd pwyllgor hefyd.
- **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno'ch tystiolaeth ynghyd â'r rhesymau dros hyn.** Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd y Pwyllgor yn rhoi'r un pwyslais arno pan fydd yn ystyried y dystiolaeth. Dylech hefyd fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd y wybodaeth a roddwyd gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth am gwmni, yn cael ei gyhoeddi neu'i ddatgelu yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- nodwch a fydddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor yr hydref.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch ag Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor ar 029 2089 8144 neu Olga Lewis, Dirprwy Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8155.

Yn gywir,



Mark Isherwood AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru): Cwestiynau ymgynghori

1. A oes angen gwneud deddfwriaeth i sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn mabwysiadu dull mwy cyson o godi ffioedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl, ac os oes, pam?
2. A yw adrannau'r Mesur arfaethedig yn briodol o ran diwygio deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r drefn godi ffioedd am wasanaethau gofal cymdeithasol? Os na, ym mha ffordd mae angen newid y Mesur arfaethedig?

Wrth ystyried y cwestiwn hwn, efallai y bydd ymgynghoreion am ystyried natur darpariaethau'r Mesur arfaethedig a fanylir isod:

- (a) wrth ystyried beth sy'n ffi resymol am wasanaeth, rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a fyddai'n rheoli neu'n pennu uchafswm y ffi (**Adran 2**);
 - (b) y pŵer a roddir i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau pa gategoriâu o bersonau, gwasanaethau neu gyfuniad o wasanaethau a eithrir rhag gosod ffi ynglŷn ag hwy (**Adran 3**);
 - (c) hawl defnyddwyr gwasanaethau i gael asesiad modd ac i unrhyw ffi am wasanaethau gael ei bennu yng ngoleuni'r asesiad hwnnw (**Adran 4**);
 - (d) y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am ffioedd a phrofion modd (**Adran 5**);
 - (e) yr hawl i wneud cais am adolygiad o benderfyniadau i godi ffioedd a'r pŵer a roddir i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r broses hon (**Adran 6**);
 - (f) y gwasanaethau gofal dibreswyl y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddynt (**Adran 7**);
3. Sut y bydd y Mesur arfaethedig yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd a beth fydd effaith newidiadau o'r fath, os o gwbl?
 4. Beth yw'r rhwystrau posibl o ran gweithredu darpariaethau'r Mesur arfaethedig (os o gwbl) ac a yw'r Mesur arfaethedig yn eu hystyried?
 5. Beth yw goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig i sefydliadau, os o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried Adran 2 y Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a manteision gweithredu'r Mesur arfaethedig.
 6. A oes cydbwysedd rhwng y darpariaethau a nodir yn y Mesur a'r pŵer a ddirprwyir i Weinidogion Cymru i nodi manylion y trefniadau diwygiedig ar gyfer codi ffioedd mewn rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau statudol? A yw'r gweithdrefnau a fyddai'n gymwys i'r rheoliadau hyn yn briodol (negyddol neu

gadarnhaol)? (Gweler Rhan 1, adran 5 y Memorandwm Esboniadol – “Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth”).

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar adrannau penodol o’r Mesur arfaethedig?

Rhestr o ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth ychwanegol

- SCC1 - Cyngor Gofal Cymru
- SCC2 - Cyngor ar Bopeth Cymru
- SCC3 - UNSAIN Cymru
- SCC4 - Diane a John Llewelyn, Beddau (ymatebion unigol)
- SCC5 - Cyngor Sir Ynys Môn
- SCC6 - Cross Roads Care
- SCC7 - Fforwm Pensiynwyr Cymru
- SCC8 - ADSS Cymru a CLILC
- SCC9 - UNITE FEDERATION
- SCC10 - Cyngor Sir Caerdydd
- SCC11 - Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
- SCC12 - Coalition on Charging Cymru
- SCC13 - Age Concern a Help the Aged Cymru
- SCC14 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
- SCC15 - Cyngor Sir Caerfyrddin
- SCC16 - Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf
- SCC17 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- SCC18 - Mandi Glover (ymateb unigol)
- SCC19 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- SCC20 - Cyngor Sir Casnewydd
- SCC21 - Cynghrair Niwrolegol Cymru
- SCC22 - Cynghrair Gofalwyr Cymru
- SCC23 - Multiple Sclerosis Society Cymru
- SCC24 - Coleg Nyrso Brenhinol Cymru
- SCC25 - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- SCC26 - SCOPE Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Tystiolaeth ychwanegol

- SCC27 - Cymdeithas Gofal Cartref Cymru
- SCC28 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: Dwyn grant arbennig ar gyfer cydweithio i ben.

Gellir dod o hyd i ymatebion i'r ymgynghoriad yn:

<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-scc-2/business-legislation-measures-scc-responses.htm>

Rhestr o'r dystiolaeth lafar

Dyddiad	Tystion
14 Gorffennaf 2009	Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol <ul style="list-style-type: none"> Gwenda Thomas AC
24 Medi 2009	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru <ul style="list-style-type: none"> Beverlea Frowen, Cyfarwyddwr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru <ul style="list-style-type: none"> Bruce McLernon, Is-lywydd, ADSS Cymru, a Chyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir Caerfyrddin
	Coalition on Charging Cymru <ul style="list-style-type: none"> Rhian Davies, Prif Weithredwr, Anabledd Cymru (Cadeirydd COCC) Graeme Francis, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru Jenny Hambidge, defnyddiwr gwasanaethau
	Cynghrair Gofalwyr Cymru <ul style="list-style-type: none"> Angela Roberts, Cyfarwyddwr Cymru
	Cynghrair Niwrolegol Cymru <ul style="list-style-type: none"> Carol Thomas-Wyllie, Motor Neurone Disease Association Joseph Carter, Rheolwr Polisi, y Wasg ac Ymgyrchoedd
1 Hydref 2009	Cymdeithas Gofal Cartref Cymru <ul style="list-style-type: none"> Mr Michael Rose, Cadeirydd Dr Peter Jones, Trysorydd Mr Paul Murphy, Cynrychiolydd Wrecsam
	Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol <ul style="list-style-type: none"> Gwenda Thomas AC

Gellir dod o hyd i drawsgrifiadau o sesiynau tystiolaeth lafar yn:
<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-lc5-agendas.htm>

Gwenda Thomas AC/AM
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mark Isherwood AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Pwyllgor Deddfwriaeth 5
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Gorffennaf 2009

Mesur Arfaethedig Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Diolch ichi am eich gwahoddiad imi ymddangos ar 14 Gorffennaf gerbron Pwyllgor Deddfwriaeth 5 i roi tystiolaeth ar y Mesur arfaethedig ar Godi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Yn y cyfarfod, addewais y byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor ar nifer o faterion. Y materion hynny oedd:

- elfennau statudol y canllawiau ar godi tâl tecach a'r newidiadau a wnaed iddynt yn 2007;
- cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn cysylltiad â'r Mesur arfaethedig a'i effaith ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol a sut y bwriedir cynnwys y bobl hyn o fewn y Mesur arfaethedig; a
- dyfyniad o ymchwil L E Wales ynghylch y posibilrwydd y bydd cleientiaid newydd yn gofyn am wasanaethau o ganlyniad i becyn Gwella Camau Cyntaf y byddaf yn ei gyflwyno os caiff y bai'r Mesur ei wneud.

Amgaeir mwy o wybodaeth am y tri maes yn Atodiadau 1 i 3. Hoffwn fanteisio wrth ysgrifennu hwn ar y cyfle i esbonio'r sefyllfa o ran amcangyfrif cost fy Mhecyn Gwella Camau Cyntaf. Cyffyrddwyd â hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor ac rwy'n credu y bu camddealltwriaeth ynghylch sail yr amcangyfrif.

I esbonio ymhellach, ar sail ymchwil LE Wales, rwy'n amcangyfrif y bydd y pecyn yn costio hyd at £11 miliwn y flwyddyn yn ôl prisiau heddiw. Dyma gost yr incwm ychwanegol y bydd awdurdodau lleol yn ei golli oherwydd y newidiadau rwyf yn eu cynnig. Fel y dywedais yn y Datganiad ar Fwriad y Polisi ar 30 Mehefin at Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid, o dan ein Cytundeb Partneriaeth gyda llywodraeth leol, rydym wedi ymrwmo i ad-dalu i awdurdodau lleol gost unrhyw faich ariannol ychwanegol rydym yn ei roi arnynt. O ganlyniad, os cytunir

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8635

Correspondence.Gwenda.Thomas@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Printed on 100% recycled paper

ar y Mesur arfaethedig, byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol i gytuno ar fanylion a lefel yr amcangyfrif hwn, yn ogystal â'i ailbrisiu ar sail prisiau 2011-2012 gan mai dyna pryd y bwriedir rhoi'r newidiadau ar waith. Bydd yr ailbrisiad yn rhoi sylw i chwyddiant, newidiadau i lefel budd-daliadau'r DWP ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill a fyddai'n effeithio ar yr amcangyfrif hwn. Fel y gwelwch yn Atodiad 3, nid oes tystiolaeth amlwg y bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau o ganlyniad i roi'r Pecyn Gwella Camau Cyntaf ar waith yn un o'r ffactorau hyn. Wedi dweud hynny, pe bai awdurdodau lleol neu eraill yn rhoi tystiolaeth y byddai cynnydd arwyddocaol yn y galw am wasanaethau, byddwn wrth reswm yn ystyried hynny wrth roi'r cynlluniau gwella cyntaf ar waith ac wrth baratoi'r Rheoliadau drafft sydd eu hangen i roi'r cynlluniau hynny ar waith. Rwy'n bendant fy marn nad yw'r goblygiadau gweithredol posibl manylach hyn yn tanseilio'r egwyddorion sy'n sail i'r Mesur arfaethedig na chwaith y ddadl gref o blaid sicrhau mwy o gysondeb wrth godi tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl ledled Cymru.

Yn gywir

Gwenda Thomas AC/AM

CANLLAWIAU AR GODI TÂL TECACH – GOFYNION STATUDOL

Cafodd y Canllawiau ar Godi Tâl Tecach eu cyhoedi gyntaf gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2002 gan ddefnyddio'r pwerau yn Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Er bod trwch y Canllawiau yn ganllaw arferion da i awdurdodau lleol sy'n dewis codi tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl, mae rhannau ohono'n ganllawiau statudol. Cawsant eu cyflwyno yn eu hanfod i amddiffyn defnyddwyr incwm isel y codir tâl arnynt am ddefnyddio gwasanaethau. Cafodd y canllawiau statudol eu cryfhau yn 2007 ac ar hyn o bryd, felly, maen nhw'n:

- sicrhau nad yw incwm net defnyddwyr y gwasanaethau yn gostwng yn sgil talu amdanynt islaw lefel sylfaenol cymhorthdal incwm neu'r lefel credyd warrantedig priodol, yn ogystal â "byffer" o ddim llai na 35% o'r swm hwnnw. Cafodd y byffer hwnnw ei godi o'r 25% gwreiddiol a bennwyd yn 2002 i 35% yn 2007;
- sicrhau yn achos defnyddwyr gwasanaethau sydd â gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd bod swm sy'n gyfwerth â 10% o lefel sylfaenol Cymorth Incwm neu'r lefel credyd gwarantiedig priodol, yn cael ei ddiystyru wrth asesu'r tâl a godir arnynt. Daeth yn ofyn newydd yn 2007;
- diystyru wrth asesu'r twrth asesu'r tâl a godir unrhyw arbedion o ran taliadau credyd a dderbyniwyd o dan drefniadau Credyd Pensiwn. Cyflwynwyd hwn yn 2002;
- diystyru unrhyw enillion sy'n rhan o incwm wrth asesu'r tâl a godir. Cyflwynwyd hwn yn 2002; a
- sicrhau bod yr arbedion a'r terfyniadau cyfalaf, os yw'r awdurdodau lleol yn eu hystyried, o leiaf mor hael â'r rhai hynny a bennir yn y "Canllaw ar Godi Tâl ar gyfer Llety Preswyl". Cyflwynwyd hwn yn 2002.

DEFNYDDWYR GWASANAETHAU SY'N DERBYN TALIADAU UNIONGYRCHOL

Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) sef Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2008, y caiff y Mesur arfaethedig ar Godi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ei wneud trwyddo, yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud deddfwriaeth ynghylch Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau neu bobl sy'n gofalu amdany'n nhw. Cafodd hyn ei gynnwys er mwyn gwneud yn siŵr bod yr LCO'n ddigon eang inni allu gwneud Mesur pellach i newid y fframwaith codi ffioedd am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl ar gyfer y defnyddwyr gwasanaethau hynny sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol yn ogystal â'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau'n uniongyrchol trwy eu hawdurdod lleol. Roedd geiriad yr LCO yn cwmpasu pawb ar y pryd y gallai Taliadau Uniongyrchol gael eu talu iddynt.

Fodd bynnag, mae'r categori o bobl sy'n gymwys i dderbyn Taliadau Uniongyrchol wedi cael ei ehangu ers hynny gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer bellach, trwy reoliad, i ganiatau talu Taliadau Uniongyrchol i "berson addas" mewn rhai amgylchiadau. Y diffiniad o berson addas yw:

- a) cynrychiolydd defnyddiwr y gwasanaeth; neu
- b) eilydd ar ran y defnyddiwr a rhywun sydd yn nhŷb yr awdurdod lleol yn berson addas i dderbyn taliadau at bwrpas sicrhau darpariaeth ar gyfer defnyddiwr y gwasanaeth dan sylw; neu
- c) ddim yn gynrychiolydd nac yn eilydd ond rhywun sydd yn nhŷb yr awdurdod lleol yn berson addas i dderbyn taliadau at bwrpas sicrhau darpariaeth ar gyfer defnyddiwr y gwasanaeth dan sylw.

Er y byddai'r taliadau hynny'n cael eu gwneud i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddiwr y gwasanaeth, nid defnyddiwr y gwasanaeth na'r person sy'n gofalu amdano o reidrwydd fydd yn derbyn y taliad. O ganlyniad, ni fyddai'r LCO fel y'i gwnaed yn rhoi mwyach y cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol ymestyn darpariaethau'r Mesur arfaethedig i bob achos lle gellid gwneud Taliad Uniongyrchol. Ni fyddai'r newidiadau a wneid felly trwy'r Mesur arfaethedig i'r drefn codi tâl am y gwasanaethau hyn yn effeithio ar y categorïau ychwanegol hynny o bobl a allai dderbyn Taliadau Uniongyrchol. Yn dilyn o hynny, byddai'n amhosibl osgoi system ddeuol ar gyfer cyfrif Taliadau Uniongyrchol. Byddai hynny'n mynd yn groes i un o brif amcanion y Mesur arfaethedig, sef sicrhau mwy o gysondeb wrth godi tâl a symleiddio'r drefn.

I gywiro'r broblem, rydym yn ceisio diwygio cymhwysedd y Cynulliad yn y maes hwn. Ychwanegwyd at eiriad Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009 drafft fel bod darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn effeithio ar bob achos o Dalu Uniongyrchol. Mae'r LCO hwnnw, sydd wedi cyrraedd camau olaf y broses ddeddfwriaethol, yn ymwneud â'r un maes yn Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 â chymhwysedd LCO 2008, sef lles cymdeithasol. Byddai cynnwys y diwygiad hwnnw yn yr LCO presennol yn ei gwneud hi'n bosibl yn yr un modd ehangu cwmpas y Mesur arfaethedig trwy welliannau iddo y byddaf yn eu cyflwyno yn yr Hydref wrth i'r Mesur wneud ei ffordd trwy'r Cynulliad.

GWAITH YMCHWIL LE WALES A'R POSIBILRWYDD I GLEIENTIAID NEWYDD WNEUD CAIS AM WASANAETHAU

Testun y gwaith ymchwil a wnaed gan LE Wales fel rhan o'r gwaith datblygu ar gyfer y Mesur arfaethedig oedd polisiau diweddaraf awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer codi tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl a'r sefyllfa yn sgil y polisiau hynny o ran codi tâl ym mhob awdurdod. Ar sail yr wybodaeth honno, clustnodwyd amryw o opsiynau ar gyfer sicrhau mwy o gysondeb yn y drefn codi tâl ac aseswyd goblygiadau'r opsiynau hyn.

O ran y cynnydd yn y galw am wasanaethau a allai ymddangos yn sgil newid y drefn codi tâl, dywedodd yr ymchwil y canlynol:

Asesiad LE Wales o'r Llinell Sylfaen

101. In our questionnaire, we also asked local authorities how many potential service users had refused a service on the basis that charges were too high. Local authorities had great difficulty in answering this question. Only five of the 22 local authorities were able to provide some kind of estimate of these numbers. The responses suggested that these five local authorities had records of 28 (out of approximately 10,700) service users refusing a service due to the level of charges. This is equivalent to less than 0.3% of users.

1. The derivation of these figures is mixed – in some cases they relate to the numbers of service users who withdraw from a service, citing cost as the main reason, and in other cases they are based on local authority estimates. Most local authorities do not keep records of the reasons for which service users withdraw from a service.

2. One local authority indicated that of those users who were entitled to a six week period of free services, 33% ceased their service during or after the six week free period. The total of the average weekly hours of service for all these people was 380 hours per week or about 6.5% of the total service for the year. The LA noted that a proportion of these people would no longer have needed home care anyway, but that these figures provide some feel for the unmet need.

3. A number of service users/carers/representatives in Wales that we have spoken to feel that there are many people who refuse a service on the basis of high charges. We are not aware of any survey-based evidence of this in Wales. A recent report from the Coalition on Charges¹ reports the results of a survey of service users in England in which 80% of the people who no longer used care services described charges for accessing support as playing a part in stopping usage. In addition, 22% of respondents using care services said that they were likely to reduce or stop receiving services if charges increased.

Prif Adroddiad LE Wales

4. Packages that reduce the number of people subject to charges and/or that reduce the level of charges paid by those who do pay charges may lead to increases in demand for services. As services become free or cheaper for more people, those people may chose to use more services. The increase might come from those who previously had not been using services or it might come from those who were paying for some services but would be willing to pay for more services at the lower price.

¹ Coalition on Charging (2008) *Charging into poverty? Charges for care services at home and the national debate on adult care reform in England*, June 2008.

5. Predicting the demand effects of a change in charges is very difficult as it involves judgements about how people might change their behaviour in response to the price change. The size of any change in demand will depend on a number of factors. These include:

a. The extent to which there are potential service users, who would pass current eligibility criteria, but who, dissuaded by existing charges, are either not currently taking up services or who are only taking a portion of the services for which they are eligible;

b. The extent to which such service users are sensitive to price changes. This might be determined by a number of factors including income levels; the size of the price change; how beneficial new or a greater level of services would be to their daily lives; the availability (and price) of alternative sources of assistance, e.g. family assistance, private care services.

c. The response of other stakeholders, such as local authorities and service providers, to price changes and to any initial impacts on demand. If, for example, local authorities are not adequately funded for any initial increases in demand, or if in the short term they have difficulty in adjusting to increased demand because of the time it takes to expand workforce and other capacity, then they may use other methods to limit any increased take up of services. For example they might raise eligibility thresholds.

6. There has been some assessment of the demand impact of reducing or eliminating charges for non residential social care services outside Wales. However evidence often arises in the context of introducing free care for some types of service and results seem to be mixed. In Scotland, for example, Audit Scotland found that the numbers of people receiving public funding for personal care at home had increased from 27,337 in 2002 to 41,386 in 2007 following the introduction of free personal care in the home for older people in 2002. In the USA and the Netherlands research has suggested that the introduction of free personal care does little to cause people to switch away from more informal care.

7. Any demand effects in Wales will depend on the specific circumstances of services users, charging systems and policy changes in Wales and so it is difficult to draw any direct conclusions on the basis of experience elsewhere. Nevertheless consideration of demand effects is likely to be a key part of arrangements for the Welsh Assembly Government to compensate local authorities for any losses in charging income arising as a result of policy changes in this area.

O ganlyniad, er i ymchwil LE Wales godi'r posibilrwydd y gallai newidiadau arwain at fwy o alw, cymysg yw'r dystiolaeth a fyddai hynny mewn gwirionedd yn digwydd, ac os gwnâi, faint o gynnydd fyddai. Hefyd, wrth ystyried ymchwil LE Wales, mae nifer o ffactorau pwysig y dylem eu cadw mewn cof a allai effeithio'n drwm ar y posibilrwydd o gynnydd yn y galw a'i faint. Sef:

- Mae ymchwil LE Wales ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ill dau yn haeru nad oes galw mawr heb ei foddhau am wasanaethau, lle nad yw unigolion sydd ag angen gwasanaethau arnynt yn eu derbyn. Nid oes dystiolaeth felly bod nifer arwyddocaol o bobl nad ydynt yn derbyn gwasanaethau a fyddai am eu derbyn pe bai'r sefyllfa o ran codi tâl amdanynt yn newid. Mewn trafodaethau, dywedodd yr United Kingdom Home Care Association y gallai'r cynigion i newid y trefniadau codi tâl greu peth anwadalwch i ddechrau wrth ddarparu gwasanaethau, ond nid ydynt yn awgrymu y byddai hyn yn fawr na chwaith na fyddai modd ei reoli;
- Mae'n bosibl na fyddai'r rheini sydd ar hyn o bryd yn talu am eu gwasanaethau'n breifat mor barod ag y byddai rhywun yn ei dybio i droi at wasanaethau'r awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, mae ganddynt y rhyddid i gomisiynu gwasanaethau oddi wrth bwy a fynnant a'u derbyn fel a fynnant. Byddent yn colli'r rhyddid hwnnw pe baent yn cael eu gwasanaethau trwy'r awdurdod lleol. Mae'n bosibl na fyddent yn hoffi'r syniad o orfod newid darparwr i un sydd â contract gyda'r awdurdod lleol a gorfod derbyn

y gwasanaethau y byddai'r awdurdod lleol wedi asesu sydd eu hangen arnynt yn hytrach na'r gwasanaethau y maent yn eu prynu. Gallai'r ddau fod yn wahanol iawn;

- Hefyd, ni fyddai pawb sydd ar hyn o bryd yn talu'n breifat am eu gwasanaethau o reidrwydd yn gymwys am wasanaethau a gomisiynir gan yr awdurdod lleol. Yn ôl "Creu System Deg ac Unedig i Asesu a Rheoli Gofal", mae hawl gan awdurdodau i bennu eu meini prawf eu hunain o ran pwy sy'n cael defnyddio'u gwasanaethau ar sail dosbarthiadau o anghenion gofal. Mae hynny'n rhoi'r rhyddid i awdurdodau bennu'n lleol pwy sy'n gymwys yng ngoleuni'r adnoddau sydd ar gael a blaenoriaethau lleol o ran darparu gwasanaethau. O ganlyniad, yn ôl y canllaw hwn, caiff yr awdurdod lleol bennu angen yr unigolyn yn ôl pa ddsbarth o bedwar y mae'n perthyn - isel, cymhedrol, sylweddol neu gritigol. Dim ond i bobl sydd ag anghenion yn y ddau gategori uchaf y mae bron pob awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu gwasanaethau. Felly, o'r rheini sy'n talu'n breifat am eu gwasanaethau, dim ond y rheini fyddai'n cael eu rhoi yn y dosbarthiadau uchaf ar ôl cael asesiad o'u hanghenion gofal fyddai'n gymwys i wasanaethau'r awdurdod lleol. Byddai'r gweddill yn dal i orfod talu am eu gwasanaethau'n breifat neu gael cefnogaeth eu teulu neu ffrindiau fel ag ar hyn o bryd;
- Wrth fynd at wasanaethau'r awdurdod lleol am y tro cyntaf, efallai na fyddai rhai unigolion yn hoffi'r syniad o orfod datgan eu sefyllfa ariannol fel rhan o brawf modd. Mae llawer o bobl yn teimlo bod prawf modd yn ormod o ymyrraeth a byddai'n well ganddynt beidio â'i gael. Byddai'n well ganddynt dalu'r tâl llawn y gallai'r awdurdod godi arnynt am eu gwasanaethau, p'un a ddylent ai peidio. Byddai pobl yn y sefyllfa hon yn rhydd o dan y Mesur arfaethedig i beidio â gofyn am brawf modd os dyna eu dymuniad. Byddai'r awdurdodau'n codi'r tâl wythnosol penodedig mwyaf arnynt am y gwasanaethau a ddarperir, p'un a oes ganddynt y modd i'w dalu ai peidio;
- Nid yw'r Pecyn Gwella Camau Cyntaf yr wyf yn bwriadu ei roi ar waith yn cynnig gwneud yr holl wasanaethau'n ddi-dâl. Bydd tâl yn dal i gael ei godi am rai gwasanaethau ac ar rai defnyddwyr, er na chaiff y tâl hwnnw fod yn fwy na £50 yr wythnos am yr holl wasanaethau a ddefnyddir gan y defnyddiwr hwnnw. Mae hyn yn wahanol i'r Alban er enghraifft, lle cyflwynwyd gofal am ddim a lle gwelwyd galw cudd mawr am y gwasanaethau. Gallai codi tâl, pa mor fach bynnag y gallai'r tâl hwnnw fod, gadw rhai pobl rhag gofyn i'r awdurdod lleol am y gwasanaethau hynny, hynny oherwydd effaith canlyniadau eraill o ran rhyddid a phroffion modd.

Yn fras felly, rwyf wedi ystyried y posibilrwydd o gynnydd yn y galw am wasanaethau yn sgil rhoi fy Mhecyn Gwella Camau Cyntaf ar waith. Fodd bynnag, ar sail ymchwil LE Wales a'r ffactorau rwyf wedi'u disgrifio uchod, nid wyf yn rhagweld y bydd fy nghynlluniau yn debygol o arwain at gynnydd arwyddocaol yn y galw. Wedi dweud hynny, pe bai awdurdodau lleol neu eraill yn rhoi tystiolaeth y byddai cynnydd arwyddocaol yn y galw am wasanaethau, byddwn wrth reswm yn ystyried hynny wrth roi'r cynlluniau gwella cyntaf ar waith ac wrth baratoi'r Rheoliadau drafft sydd eu hangen i roi'r cynlluniau hynny ar waith. Rwy'n bendant fy marn nad yw'r goblygiadau gweithredol posibl manylach hyn yn tansilio'r egwyddorion sy'n sail i'r Mesur arfaethedig na chwaith y ddadl gref o blaid sicrhau mwy o gysondeb wrth godi tâl am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl ledled Cymru.



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Pa mor briodol yw darpariaethau is-ddeddfwriaeth yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru)

1. Rheolau Sefydlog

1.1 Mae'r Pwyllgor yn meddu ar y pwerau canlynol o dan y Rheolau Sefydlog:

- Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn datgan y caiff y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ystyried a chyflwyno adroddiadau ar 'pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ... sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru.'
- Er nad yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i roi sylwadau ar rinweddau'r cynnig y bwriedir i'r Mesur arfaethedig ei weithredu, mae Rheol Sefydlog 15.6(v) yn datgan y caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.'

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw llywio dadl Cyfnod 1 y Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyfnodau deddfwriaethol dilynol.

2. Ystyriaeth

2.1 Ar 30 Medi 2009, ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) a chafodd dystiolaeth gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol.

3. Cefndir

3.1 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'r Cynulliad ar 29 Mehefin 2009. Mae Pwyllgor Cyfnod 1 wedi cael ei sefydlu i ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

3.2 Mae'r Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn darparu ar gyfer cyflwyno trefn newydd a fydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol ym mhob rhan o Gymru yn mabwysiadu ffordd fwy cyson o godi ffi ar ddefnyddwyr gwasanaethau am ddefnyddio gwasanaethau gofal

cymdeithasol nad ydynt yn wasanaethau preswyl. Mesur galluogi yw'r Mesur yn bennaf, a fydd yn caniatáu i'r darpariaethau manwl gael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth ac mewn canllawiau statudol.

4. Pwerau a Gweithdrefnau gwneud Is-ddeddfwriaethau

4.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a gorchmynion mewn cysylltiad â swyddogaethau penodol o dan y Mesur arfaethedig. Caiff y pŵer ym mhob achos ei arfer gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol. Bydd y ddeddfwriaeth, gydag un eithriad, yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro mai'r rheswm dros hyn yw oherwydd natur yr is-ddeddfwriaeth, sy'n ymwneud yn bennaf â threfniadau ariannol a gweinyddol. Yr eithriad yw y bydd, o dan Adran 10 (3) a (4) (a) yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol** os yw'r is-ddeddfwriaeth yn ceisio diwygio Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad.

4.2 Mae'r darpariaethau canlynol yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau:-

Adran 2 (2): pŵer i wneud rheoliadau sy'n rheoli ac yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i bennu ffi resymol. Mae isadran (3) yn cynnwys enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y gellir ei chynnwys mewn rheoliadau o dan yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pennu'r uchafswm y gall awdurdod lleol ei godi am wasanaeth arbennig neu am unrhyw gyfuniad o wasanaethau a darpariaeth ar gyfer pennu uchafswm o ran ffi fesul awr neu fesul wythnos.

Adran 3 (1): pŵer i wneud rheoliadau sy'n eithrio rhai categorïau penodol o bersonau rhag codi ffioedd neu wasanaethau.

Adran 4 (3) a (4): pŵer i wneud rheoliadau sy'n rheoli sut y bydd awdurdod lleol yn asesu modd rhywun.

Adran 4 (5) a (6): pŵer i wneud rheoliadau ynghylch pennu'r hyn sy'n rhesymol ymarferol i ddefnyddiwr gwasanaeth ei dalu, ar sail eu hasesiad modd.

Adran 5 (4) (e): pŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestr o wybodaeth a ddarperir ar gyfer y rhai y mae'r awdurdod lleol yn penderfynu codi ffi arnynt.

Adran 6 (1): pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer adolygu penderfyniadau codi ffioedd a gaiff eu gwneud gan awdurdodau lleol ac mewn perthynas â'r adolygiad hwnnw.

Adran 10 (3): pŵer drwy orchymyn i wneud darpariaeth sy'n angenrheidiol neu'n gyfleus at ddibenion y Mesur, neu o ganlyniad i, neu er mwyn effeithio ar, unrhyw un o ddarpariaethau'r Mesur. Mae Adran 10 (4) yn darparu y gall gorchymyn o'r fath ddiwygio, diddymu neu ddirymu

unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf Seneddol, Mesur Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth. Pan fydd gorchymyn o'r fath yn diwygio Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad, bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Adran 11 (3): pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i gychwyn darpariaethau'r Mesur. Fel sy'n arferol ar gyfer gorchymynion cychwyn, ni fydd gweithdrefn yn berthnasol.

5. Materion a godwyd mewn tystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor

5.1 Holodd y Pwyllgor pam bod y Mesur arfaethedig yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau a Gorchymynion ac a yw hyn yn cyfyngu ar waith craffu a thrafodaethau mewn llawer o feysydd. Cred y Pwyllgor y dylid cynnwys mwy o fanylion ar wyneb y Mesur ac mae'n gwneud argymhellion i fynd i'r afael â hyn.

Adran 2: Uchafswm y ffioedd

5.2 Er bod y Pwyllgor yn derbyn y rhesymeg dros osod uchafswm ffi drwy reoliad gan y byddai angen ei ddiweddarau'n rheolaidd, holodd y Pwyllgor a ddylid cynnwys fformiwla dros gyfrif o'r uchafswm ffi ar wyneb y Mesur.

5.3 Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Gweinidog:

'There is no formula as such. We are setting out a maximum charge of £50 for all services—that is the proposal..... However, if we were to use a formula and include it on the face of the proposed Measure, it would require another Measure to change it, which would complicate matters. It is far clearer and easier to rely on regulations to amend the maximum charge as and when necessary.'

5.4 Gwelodd y Pwyllgor dystiolaeth a gyflwynwyd gan Gynghrair Niwrolegol Cymru i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, sy'n ystyried y Mesur. Roedd y dystiolaeth hon yn datgan:

'[We] expected the proposed Measure to either set a maximum charge or develop a formula that would be used to set charges. This would have given ... Assembly Members the ability to contribute to the debate as to what level of charges are reasonable for people wanting access to social care.'

5.5 Nododd y Pwyllgor hefyd fod adran 2(3)(e) ar yr uchafswm ffi yn nodi 'o ran ffi a bennir o dan (c), sy'n nodi fformiwla ar gyfer penderfynu'r swm y mae'n

¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 49 a 53, 30.09.09

² Cynghrair Niwrolegol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, SCC21

rhaid ei ystyried fel mwyafswm rhesymol y ffi', felly cred y Pwyllgor y dylai fformiwla ar gyfer mwyafswm y ffi gael ei gynnwys ar wyneb y Mesur.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod fformiwla ar gyfer cyfrif o'r uchafswm ffi yn ymddangos ar wyneb y Mesur. Nid yw'r Pwyllgor yn credu y byddai hyn yn cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i bennu uchafswm o £50 yr wythnos ar ffioedd, gan y byddai'n bosibl gosod darpariaeth addas yn y Mesur i ddefnyddio fformiwla amgen i'r uchafswm ffi. Gan ystyried natur fframwaith yr adran, ynghyd â'r effaith ariannol y gallai ei gael ar y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae'r Pwyllgor yn argymhell ymhellach y dylai unrhyw reoliadau a wneir o dan Adran 2 o'r Mesur fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Adran 3: Y personau a'r gwasanaethau a gaiff eu heithrio o'r ffi

5.6 Cafodd y Gweinidog ei holi gan y Pwyllgor ynglŷn â pham nad yw manylion y personau a'r defnyddwyr gwasanaethau a gaiff eu heithrio o'r ffi yn ymddangos ar wyneb y Mesur. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd a ddylai'r ddarpariaeth hon fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol er mwyn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal trafodaeth arni.

5.7 Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Gweinidog:

'...the ability to specify persons in respect of whom charging cannot be made has been left to the regulations. That is to allow for maximum flexibility in considering who those persons or groups should be..... We want maximum flexibility so that we can embrace as many groups and persons as possible, and to allow flexibility for this and future Governments.'³

5.8 Mae'r Pwyllgor yn nodi hefyd y dystiolaeth gan Gynghair Niwrolegol Cymru, i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, sy'n datgan:

'the proposed Measure as drafted would allow the current Welsh Minister or future Welsh Minister to exclude groups of people who the

³ Cofnod y Trafodion, Paragraff 60, 30.09.09

government believe to be special cases without this decision being fully consulted by the National Assembly for Wales.’⁴

5.9 Mae’r Pwyllgor yn derbyn pryderon Cynghrair Niwrolegol Cymru ond yn nodi anghenion y Gweinidog o ran hyblygrwydd, felly mae o’r farn y dylid defnyddio’r weithdrefn gadarnhaol ar yr achlysur hwn.

Argymhelliad 2

Mae’r Pwyllgor yn derbyn rhesymau’r Gweinidog dros beidio â chynnwys manylion ar wyneb y Mesur ond, o ystyried ei fframwaith, mae’n argymhell y dylai’r ddarpariaeth o dan adran 3 sy’n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i eithrio rhai personau a rhai gwasanaethau o dalu’r ffi fod yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol.

Adran 10: Gorchmynion a Rheoliadau

5.6 Mae natur fframwaith y Mesurau a gaiff eu cynnig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn peri pryder cynyddol i’r Pwyllgor. Holodd y Pwyllgor a ddylai’r gyfres gyntaf o reoliadau a wneir o dan y Mesur, oherwydd natur fframwaith y Mesur hwn, fod yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol.

5.7 Wrth ymateb i hyn, dywedodd y Gweinidog nad oedd yn cytuno â hyn a bod yr un rheoliad sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol yn foddhaol ar gyfer y Mesur hwn.

Argymhelliad 3

O ystyried natur fframwaith y Mesur, ynghyd â’r effaith posibl y gallai ei gael ar y rhai sy’n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod y gyfres gyntaf o reoliadau a wneir o dan y Mesur yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol.

⁴ Cynghrair Niwrolegol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, SCC21

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Cefndir

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn datgan:

Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:

- (i) *gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

Y Mesur arfaethedig

2. Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 29 Mehefin 2009. Roedd Memorandwm Esboniadol yn cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig. Ar 22 Medi, rhoddodd y Gweinidog ragor o dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid: datganiad o fwriad polisi (dyddiedig 30 Mehefin) a phapur i gynorthwyo'r Pwyllgor Cyllid wrth iddo ystyried y Mesur arfaethedig.
3. Mae'r Mesur yn ceisio cyflwyno dull mwy cyson o godi ffioedd am wasanaethau cymdeithasol dibreswyl yn dilyn pryderon bod y ffioedd a godir gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar ble mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn byw. Mae rhannau helaeth o'r Mesur arfaethedig yn galluogi ac yn grymuso, ac mae'n gwneud darpariaeth a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol er mwyn llunio manylion y fframwaith deddfwriaethol yn ddiweddarach.

Tystiolaeth

4. Bu'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig yn ei gyfarfod ar 8 Hydref, a chlywyd dystiolaeth gan y canlynol:
 - Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
 - Amanda Jones, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
 - Steve Milsom, Polisi Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor, Llywodraeth Cynulliad Cymru

5. Bu'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru), a'r dystiolaeth honno'n rhan o'r broses ymgynghori'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys cwestiwn penodol yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol y Mesur arfaethedig:

Beth yw goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig i sefydliadau, os o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried Adran 2 y Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a manteision gweithredu'r Mesur arfaethedig.

Sylwadau

6. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r materion isod sy'n ymwneud ag ariannu darpariaethau'r Mesur arfaethedig.

Darpariaethau cyffredinol y Mesur arfaethedig

7. **Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi pwerau galluogi a grymuso.** Mae'r unig bwerau y mae'n eu rhoi'n uniongyrchol yn ymwneud â'r gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth, ac mae'n debygol na fydd llawer o gostau ynghlwm wrth hynny. Dywedodd y Dirprwy Weinidog [Cofnod y Trafodion 129] wrth y Pwyllgor y byddai rheoliadau a wneir o dan y Mesur yn ymwneud yn bennaf â'r trefniadau ariannol a gweinyddol, ac y byddai angen eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n arferol i reoliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Bwriadai'r Dirprwy Weinidog gael rhagor o drafodaethau â rhanddeiliaid ac ymgynghori'n gyhoeddus cyn drafftio rheoliadau. Byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gan mai dyna yw'r arfer cyffredin.
8. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd asesiad ariannol llawn yn cael ei gynnal cyn cyflwyno pob darn o is-ddeddfwriaeth. Cadarnhaodd hefyd y byddai'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn ystyried y ddeddfwriaeth honno.
9. Gan fod y Mesur arfaethedig yn rhoi pwerau galluogi a grymuso, gyda'r rhan fwyaf o'r manylion i'w cyflwyno yn sgil rheoliadau dilynol, **mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi** ei bod yn amhosibl craffu'n fanwl ac yn benodol mewn unrhyw ffordd ar y cynigion. Er y byddai'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn ystyried yr is-ddeddfwriaeth dan sylw, mae'r lefel o graffu yn y rhan honno o'r broses yn llawer gwannach nag wrth graffu ar y Mesur arfaethedig. At hynny, ni fydd y Pwyllgor Cyllid yn craffu ar yr is-ddeddfwriaeth honno. Gan fod y Mesur arfaethedig hwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â chodi ffioedd, ac yn rhoi cryn ryddid i'r Llywodraeth mewn perthynas â hynny, mae'n destun pryder bod dull sy'n hepgor y Pwyllgor Cyllid wedi cael ei fabwysiadu.
10. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn nodi y bydd cynigion a gaiff eu cyflwyno yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn unig.

Y Pecyn Gwelliannau Camau Cyntaf

11. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi darparu asesiad i'r Pwyllgor o gostau posibl darpariaethau'r Pecyn Gwelliannau Camau Cyntaf. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u seilio ar awdurdodau sy'n codi ffioedd ar lefel 'sylfaen' ac ar ymchwil a wnaed gan LE Wales. Mae'n dangos mai cyfanswm cost y pecyn Camau Cyntaf fydd tua £11 m y flwyddyn, yn bennaf gan y bydd angen ad-dalu awdurdodau lleol am incwm a gollwyd yn sgil y newidiadau arfaethedig i'r trefniadau codi ffioedd. Dywedodd y Dirprwy Weinidog [Cofnod y Trafodion 137] fod hyn wedi'i seilio ar ymchwil a wnaed ar sail polisiau codi ffioedd 2008-9. Dywedodd hefyd y byddai'n barod i siarad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau unigol, gan edrych ar y costau ychwanegol a allai fod wedi datblygu rhwng y cyfnod hwnnw ac adeg cyflwyno'r Mesur yn 2011-12. Dywedwyd hefyd wrth y Pwyllgor Cyllid [Cofnod y Trafodion 138] bod y terfyn amser o 30 Mehefin yn golygu na allai awdurdodau gynyddu eu ffioedd er mwyn hawlio arian ychwanegol yn ôl gan Lywodraeth y Cynulliad.
12. Wrth ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Deddfwriaeth, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei bod yn pryderu'n arw pa mor fforddiadwy fyddai'r Mesur arfaethedig yn yr hinsawdd ariannol presennol, yn enwedig gan fod awdurdodau o dan bwysau i wneud arbedion, gyda'r risg o ddarparu llai o wasanaethau. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r farn hon, ond o ran y polisi, nid yw'n credu y byddai'n briodol rhoi sylwadau ar hynny.

Ad-dalu awdurdodau lleol

13. **Mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd yn ad-dalu awdurdodau lleol** am golli'r incwm hwn, ac y bydd yr arian ar gyfer hyn yn dod o'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y grant hyrwyddo annibyniaeth a lles a'r grant ar gyfer cydweithio, sydd ill dau'n dod i ben yn 2011. Ar hyn o bryd, cyfanswm y grant hyrwyddo annibyniaeth a lles yw £4.5m a £11m yw cyfanswm y grant ar gyfer cydweithio. Dywedodd y Dirprwy Weinidog [Cofnod y Trafodion 145] y bydd y ddau grant yn dod i ben a bod y rheswm pam y cyflwynwyd yr arian grant hwnnw'n dod i ben bryd hynny hefyd.
14. Er bod y grantiau hyn yn dod i ben, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dadlau mewn nodyn dilynol bod angen parhau i gefnogi'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ganddynt. Barn y Gymdeithas yw y dylai'r arian hwn ddod yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw yn dilyn y cyfnod hwn.
15. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi** datganiad y Dirprwy Weinidog fod y ddau grant yn dod i ben. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor [Cofnod y Trafodion 150] mai'r bwriad erioed oedd y byddai'r gweithgareddau hyn yn cael eu datblygu a'u prif ffrydio gan awdurdodau lleol. Os yw hyn yn wir, o dan drefniant Essex-Jones, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ariannu'r cyfrifoldebau newydd

hyn a roddir ar lywodraeth leol. Tra gallai'r Pwyllgor Cyllid dderbyn na fydd lefel yr ariannu mor uchel yn y dyfodol ag y bu yn y gorffennol, mae'n ei chael yn anodd gweld pam na ddylai'r ymrwymiad barhau mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn, yn enwedig gan fod rhai o'r gweithgareddau hynny wedi cael eu hariannu gan y grant ar gyfer cydweithio, sydd wedi rhoi tua £71m i awdurdodau lleol rhwng 2001 a 2008. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod sefydliadau eraill, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn rhannu'r pryderon hyn, ac mae'n gofyn i'r Gweinidog wneud datganiad clir am y trefniadau pontio ar gyfer yr holl grantiau hyn fel ei bod yn eglur i'r Pwyllgor Cyllid ac i lywodraeth leol beth a ddisgwylir gan lywodraeth leol a pha gymorth ariannol a ddarperir.**

Newidiadau i'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys i gael gwasanaethau

16. Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, o ganlyniad i brinder adnoddau, mae llawer o gynghorau yn y gorffennol wedi cyflwyno mwy o feini prawf ar gyfer bod yn gymwys i gael gwasanaethau, a hynny er mwyn cadw o fewn y gyllideb. Roedd pryderon y gallai awdurdodau wneud hyn er mwyn rheoli'r pwysau a fyddai'n cael ei greu gan y Mesur arfaethedig.
17. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor Cyllid [Cofnod y Trafodion 163] fod pennu meini prawf ar gyfer cymhwysedd y tu allan i gwmpas y Mesur arfaethedig ac y byddai'r cyfrifoldeb dros wneud hynny'n aros yn llwyr yn nwylo awdurdodau lleol, er y bydd angen iddynt weithredu o fewn y gofyniad fod yr holl ffioedd a godir yn rhesymol. Dywedodd nad oedd yn gweld unrhyw amgylchiadau'n codi lle byddai awdurdodau lleol yn credu bod angen newid y meini prawf. Dywedodd hefyd [Cofnod y Trafodion 166-7] fod gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu canllawiau proffesiynol ar lefelau codi ffioedd. At hynny, ni fyddai gan unrhyw awdurdod lleol reswm dros newid ei feini prawf ar gyfer bod yn gymwys i gael gwasanaethau gan y byddai'r Llywodraeth yn ad-dalu'r costau.
18. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r ffaith** bod y Dirprwy Weinidog wedi rhoi'r sicrwydd hwn.

Uchafswm ffioedd

19. Wrth roi tystiolaeth, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog mai ei bwriad oedd pennu uchafswm ar gyfer ffioedd. Dywedodd y byddai gwneud hyn drwy reoliadau yn rhoi'r hyblygrwydd i newid yr uchafswm dros amser. Dywedodd y Pwyllgor Cyllid wrth y Gweinidog y gallai weld manteision cael hyblygrwydd wrth bennu uchafswm ar gyfer ffioedd, ond nid oedd yn gweld pam fod angen cael y pŵer i bennu uchafswm ar unrhyw lefel mewn rheoliadau. Holodd yr Aelodau tybed a fyddai'n fwy priodol cynnwys y pŵer hwn yn y Mesur ei hun. Wrth ymateb [Cofnod y Trafodion 189], ailbwysleisiodd y Dirprwy Weinidog fod angen hyblygrwydd.

20. Mewn perthynas â lefel y ffioedd, er y byddai uchafswm ffi o £50, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor Cyllid [Cofnod y Trafodion 193] mai dim ond pan fyddai'r gwasanaeth a roddir i'r defnyddiwr yn cyfiawnhau hynny y gellid codi'r ffi hwn. Oherwydd hyn, nid oedd y Dirprwy Weinidog yn credu y byddai'r uchafswm ffi yn dod yn ffi 'safonol'. Credai hefyd [Cofnod y Trafodion 195] na fyddai'r un awdurdod lleol am leihau ansawdd ei wasanaethau gan y byddai'r rheini'n dal yn destun archwiliadau ac yn gorfod cydymffurfio â rheoliadau. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu y gallai'r uchafswm ffi ddod yn ffi arferol ar gyfer y gwasanaethau hyn mewn dim o dro.
21. Nododd y Dirprwy Weinidog [Cofnod y Trafodion 200] y pryderon na fyddai chwyddiant yn cael ei ystyried wrth bennu lefel sefydlog ar gyfer y ffi. Dywedodd mai un o fanteision pennu'r lefel hon drwy reoliadau fyddai'r hyblygrwydd i ailedrych ar y ffioedd pan fyddai angen gwneud hynny.
22. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi** bwriad y Dirprwy Weinidog i sicrhau hyblygrwydd ym mhob agwedd ar y Mesur hwn. Mae'n nodi'r ffydd sydd ganddi mewn awdurdodau lleol a'i hymrwymiad i ailedrych ar y ffioedd yn sgil chwyddiant.

Materion eraill

23. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ymrwymiad y Gweinidog i ddiogelu incwm pobl sydd ag anableddau difrifol drwy beidio ag ystyried y lwfans gweini cyson a lwfansau anabledd difrifol wrth asesu'r ffioedd a godir. Mae'n nodi hefyd mai dim ond cyfran fechan o bawb sy'n anabl a fydd yn elwa o hyn.
24. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn nodi bod y Dirprwy Weinidog yn hyderus na fydd y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu trafndiaeth am ddim i ganolfannau dydd yn arwain at lai o wasanaethau trafndiaeth. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymhell y dylai'r Gweinidog fonitro lefel y gwasanaethau trafndiaeth a ddarperir a sicrhau bod modd i lywodraeth leol gwrdd â'r ymrwymiad hwn yn ariannol.

Casgliadau

25. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol yn Fesur sydd yn ei hanfod yn galluogi ac yn grymuso, ac y bydd yn galluogi'r Llywodraeth i wneud amrywiaeth eang o reoliadau mewn perthynas â chodi ffioedd am ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl.
26. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod y costau a gyflwynwyd a'r costau y bu modd eu hystyried yn ymwneud â'r Pecyn Gwelliannau Camau Cyntaf yn unig. Mewn geiriau eraill, dyna gostau posibl y nod polisi y tu ôl i'r Mesur. Nid ydynt yn cynnwys holl

oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig ei hun. Gan ystyried bod y Mesur yn ei hanfod yn galluogi ac yn grymuso, mae'n amhosibl amcangyfrif yr holl oblygiadau ariannol.

27. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cydnabod manteision ymarferol cyflwyno dulliau o bennu ffioedd drwy reoliadau, a hynny er mwyn cael hyblygrwydd, yn enwedig mewn perthynas â chwyddiant. Ond mae'r Pwyllgor yn nodi bod y broses o graffu ar reoliadau yn llai manwl na'r broses o graffu ar Fesurau arfaethedig. At hynny, er y bydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn ystyried rheoliadau, ni fydd y Pwyllgor Cyllid yn gwneud hynny, ac yn y rhan fwyaf o achosion byddant yn cael eu cymeradwyo drwy benderfyniad negyddol. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn credu bod hyn yn anfoddfaol ar gyfer Mesur arfaethedig sydd yn ei hanfod yn ymdrin â materion ariannol.
28. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu ynghylch y defnydd o ddau gynllun grantiau sy'n bodoli'n barod er mwyn ariannu'r Pecyn Gwelliannau Camau Cyntaf, gan fod hynny'n codi cwestiynau am drefniant Essex-Jones. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn i'r Gweinidog wneud datganiad clir am y trefniadau pontio ar gyfer yr holl grantiau hyn, fel ei bod yn eglur i'r Pwyllgor Cyllid ac i lywodraeth leol beth a ddisgwylir gan lywodraeth leol a pha gymorth ariannol a ddarperir.
29. Mae'r Pwyllgor yn Cyllid yn nodi bod angen hyblygrwydd mewn perthynas â chwyddiant, ond nid yw hyn yn berthnasol i'r cwestiwn mwy sylfaenol ynghylch a ddylai'r Llywodraeth gael y pŵer i bennu uchafswm ffi o gwbl. Credwn y byddai'n fwy priodol cynnwys y pŵer i bennu uchafswm yn y Mesur ei hun. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn gweld y byddai gwrthwynebiad wedyn i'r Llywodraeth gael y pŵer i bennu lefel y ffioedd drwy reoliadau. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu y gallai'r uchafswm ffi ddod yn ffi arferol ar gyfer y gwasanaethau hyn mewn dim o dro.
30. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ymrwymiad y Gweinidog i ad-dalu awdurdodau lleol am golli incwm yn sgil y Pecyn Gwelliannau Camau Cyntaf, yr ymrwymiad i drafod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau unigol, yn ogystal â'r ymrwymiad i edrych ar gostau ychwanegol a allai fod wedi datblygu rhwng 2008-9, sef y flwyddyn sylfaen ar gyfer y ffigurau codi ffioedd, a 2011-12, pan gyflwynir y Mesur. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd yr un broses yn cael ei dilyn mewn perthynas â'r holl reoliadau eraill o wneir o dan y Mesur hwn.
31. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod y Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd yr arian ar gyfer yr ad-daliadau hyn yn dod o'r arian ar gyfer dau gynllun sydd bellach wedi dod i ben. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cais am ragor o wybodaeth am hyn, ac mae'n edrych ymlaen at gael y wybodaeth honno.
32. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ffydd y Dirprwy Weinidog mewn awdurdodau lleol a'r ffaith na fydd y Mesur arfaethedig yn arwain, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at unrhyw newid yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt na'r meini prawf a

ddefnyddir ganddynt i benderfynu pwy sy'n gymwys i gael y gwasanaethau hynny.

Angela Burns
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arfaethedig

Mae'r prif bŵer sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arfaethedig wedi'i gynnwys ym Mater 15.1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mater 15.1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

“...15.1 Ffioedd a godir gan awdurdodau lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir neu a sicrhair ganddynt a thaliadau ar gyfer unigolion ag anghenion sy'n ymwneud â'u lles fel bod modd iddynt hwy, neu i'r personau sy'n gofalu amdanynt, sicrhau gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys ffioedd a thaliadau ar gyfer gofal preswyl...”